- 5.10. Nododd rhai darparwyr nifer y gweithwyr asiantaeth a oedd yn gweithio fel rhan o rai o'r timau, a all effeithio ar ansawdd atgyfeiriadau ac sydd wedi atal cyfarfodydd rhag cael eu cynnal pan nad yw'r gweithwyr wedi'u lleoli yng Ngheredigion. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau nad yw penderfyniadau i gyflogi staff asiantaeth sy'n gweithio y tu allan i Geredigion yn achosi unrhyw rwystrau neu oedi o ran rhoi cymorth i bobl.

### **Y Camau Nesaf**

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r arferion cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol, er mwyn lledaenu gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## Methodoleg

### Gwaith maes

Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar **42** o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain **10** ohonynt er mwyn deall profiad yr unigolyn yn fanylach.

Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r unigolyn sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.

Gwnaethom hefyd:

- gyfweld â chyflogeion yr awdurdod lleol.
- cyfweld ag amrywiaeth o sefydliadau partner, yn cynrychioli'r sector statudol a'r trydydd sector.
- cynnal grwpiau ffocws gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau'r awdurdod lleol.
- O ganlyniad i'r uchod, llwyddodd AGC i ymgysylltu â **114** o unigolion.

Yn ogystal, gwnaethom;-

- edrych ar ffeiliau goruchwyllo staff
- edrych ar ganmoliaethau a chwynion
- edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad
- dosbarthu arolygon i staff, sefydliadau partner a phobl

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>.

### Y Gymraeg

Cyflawnwyd ymrwymiad AGC i ddarparu cynnig rhagweithiol i gynnal rhannau o'r arolygiad yn Gymraeg. Roedd angen y cynnig rhagweithiol yn ystod yr arolygiad hwn.

### **Cydnabyddiaethau**

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Thema	Cyf AGC	Cryfderau a nodwyd
Pobl – llais a rheolaeth	2.1	I lawer o bobl, caiff eu lleisiau eu clywed a chaiff eu canlyniadau personol eu cofnodi. Roedd enghreifftiau lle roedd ymarferwyr yn gweithio mewn ffordd gydweithredol a chyson â phobl i gefnogi'r pethau sy'n bwysig iddynt. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael eu deall, bod eu llais wedi cael ei glywed a bod trefniadau cyfathrebu effeithiol a rheolaidd ar waith. Dywedodd 82% o'r bobl a ymatebodd i'n harolwg pobl fod yr awdurdod lleol wedi eu trin ag urddas a pharch drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser.
Pobl – llais a rheolaeth	2.2	Gall pobl gyfathrebu yn eu dewis iaith. Roedd tystiolaeth bod y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei ddarparu, ac roedd rheolwyr yn hyderus bod digon o ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg i roi'r Cynnig Rhagweithiol ar waith.
Pobl – llais a rheolaeth	2.3	Roedd gwasanaethau eirioli yn cael eu hystyried a'u cynnig mewn modd rhagweithiol, yn enwedig yng nghyd-destun cynadleddau amddiffyn plant ac adolygiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae'r ffaith bod y gwasanaethau hyn ar gael yn hwylus yn gryfder sy'n parhau o'n gwiriad sicrwydd blaenorol yn 2021. Mae eiriolwyr yn mynychu fforymau gwneud penderfyniadau yn rheolaidd er mwyn cyfleu safbwyntiau'r plant. Dywedodd rhai plant sy'n derbyn gofal wrthym am anawsterau roeddent yn eu cael weithiau wrth gael cymorth ac am ddiffyg tryloywder ynghylch eu hawliau a'u hawliadau. Roedd rhai o'r plant yn teimlo eu bod yn gwneud penderfyniadau heb gymorth ar adegau allweddol yn eu bywydau. Gall fod angen atgyferthu'r maes hwn ymhellach. Yn y gwasanaethau oedolion, roedd tystiolaeth bod pobl yn cael eu cefnogi gan eiriolwyr anffurfiol i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae ymarferwyr yn y gwasanaethau oedolion yn deall pwysigrwydd gwasanaethau eirioli. Nododd y darparwr eirioli ffurfiol efallai, ar adegau gellid bod wedi ei gynnwys yn gynt.
Pobl – llais a rheolaeth	2.4	Mae pobl yn cael y cyfle i deilwra a rheoli eu gofal a'u cymorth eu hunain drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, yn yr un modd ag awdurdodau lleol eraill ledled Cymru, mae'n anodd recriwtio cynorthwyr personol i roi cymorth drwy daliadau uniongyrchol. Clywsom sut mae'r gwasanaeth wrthi'n ceisio recriwtio cynorthwyr personol newydd drwy wefan a system feddalwedd newydd.
Pobl – llais a rheolaeth	2.5	Mae gan Geredigion weithlu ymroddegedig sy'n ymateb i lwyth gwaith cynyddol o ran cymhlethdod ac o ran nifer yr achosion. Cyfeiriodd 77% o'r unigolion a ymatebodd i'n harolwg staff dienw at yr heriau hyn, ond gan nodi eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu cydweithwyr a'u rheolwyr. Clywsom hefyd fod y staff yn gwerthfawrogi hygrychedd uwch-reolwyr. Dywedodd 74% o'r staff eu bod yn gallu ymdopi â'u llywyth gwaith.
Pobl – llais a rheolaeth	2.6	Mewn ymateb i'r heriau y mae'r awdurdod lleol yn eu hwynebu wrth recriwtio gweithwyr cymdeithasol cymwysedig, ceir ffocws ar ymdrechion i ddatblygu aelodau o staff mewnlol. Yn galonogol, clywsom fod yr awdurdod lleol wedi bod yn gweithio'n agos â Phrifysgol Aberystwyth i geisio creu cwrs gwaith cymdeithasol i hyfforddi'r gweithlu sydd ei angen ar gyfer y dyfodol. At hynny, nodwn fod yr awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth ofalus i gyflogi gweithwyr o dramor. Byddent eisiau i'r gweithwyr hynny ymrwymo i ddysgu Cymraeg ac maent yn ymwybodol y bydd angen rhoi cymorth iddynt integreiddio i'r diwylliant lleol.
Pobl – llais a rheolaeth	2.7	Roedd y rheolwyr y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus eu bod yn meddu ar y sgiliau priodol ac yn cael cymorth i arwain. Penodiad dros dro yw'r unigolyn sy'n ymgymryd â swydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd. Mae'r awdurdod yn chwilio am Gyfarwyddwr parhaol er mwyn rhoi gwell sefydlogrwydd i'r uwch-dîm arwain.
Atal	3.1	Mae uwch-reolwyr yn deall yn iawn bod y gallu i gael gafael ar ymriadau cynnar a gwasanaethau atal yn allweddol er mwyn cynnal llesiant a lliniaru'r galw am wasanaethau gofal a reolir. Un o gryfderau Ceredigion yw'r ymrwymiad strategol a rennir i'r agenda ataliol, fel y gwelir yn y penderfyniad i drawsnewid i'r model LIGO. Mae hyn yn sicrhau ffocws ar annog annibyniaeth pobl a helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd pan fydd yn ddiogel iddynt wneud hynny.
Atal	3.2	Gwelsom enghreifftiau o asesiadau ac adroddiadau cynadleddau amddiffyn plant, a oedd yn canolbwyntio ar y plentyn ac wedi'u hysgrifennu mewn ffordd y gallai'r plentyn neu berson ifanc ei deall. Mae ansawdd y rhan fwyaf o'r adolygiadau ar gyfer plant yn parhau'n gryfder o'n gwiriad blaenorol yn 2021. Caiff y cofnodion eu hysgrifennu'n uniongyrchol i'r plentyn, gan roi'r ymdeimlad o lythyr wedi'i bersonoli. Mae'r cofnodion hyn yn cydnabod dymuniadau'r plentyn ac yn esbonio canlyniadau a phenderfyniadau ei adolygiad mewn iaith syml.
Atal	3.3	Mae'r gweithwyr cymdeithasol yn amlwg yn anelu at feithrin cydberthnasau ystyrlon â phlant a theuluoedd, gyda phwyslais ar weithio'n uniongyrchol â phlant unigol. Gwelsom enghreifftiau o weithwyr cymdeithasol yn chwarae gemau â'r plant, yn lliwio gyda nhw ac yn chwarae pêl-droed er mwyn meithrin cydberthnasau. Gwelsom dystiolaeth gadarn o fyfyrion gan ymarferwyr, chwilyfrydedd proffesiynol a phenderfyniadau clir mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.
Atal	3.4	O dan y model LIGO, mae amrywiaeth o wasanaethau ataliol wedi cael eu cyfuno o dan ambarél y PCC. Mae amrywiaeth a chapasiti'r gwasanaethau hyn, gan gynnwys y rhai hynny a ddarperir gan y trydydd sector, yn gryfder amlwg a nododd ein harolwg staff fod y gweithlu yng Ngheredigion yn eu gwerthfawrogi. Gwelsom enghreifftiau o gyfarfodydd a oedd wedi'u trefnu'n effeithiol er mwyn penderfynu pa wasanaethau sydd yn y sefyllfa orau i gefnogi teuluoedd. Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer canolfannau llesiant fel 'siop un stop' ar gyfer gwasanaethau gan gynnwys gwasanaethau hamdden, gwasanaethau tai a gwasanaethau ieuencid. Mae'r awdurdod lleol wrthi'n datblygu cyfeiriadur o adnoddau, gwasanaethau a chyfleusterau er mwyn i'r help cynnar sydd ar gael fod yn gliriach i staff a'r cyhoedd.
Atal	3.5	Clywsom, fel ymrwymiad i ddatblygu cysylltiadau cymunedol a chefnogi'r agenda ataliol, fod yr awdurdod lleol wedi cynyddu nifer y Cysylltwyr Cymunedol, gan weithio ar sail model ardaloedd bach drwy'r sir, er mwyn ceisio cysylltu pobl â gwasanaethau, gweithgareddau a digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn eu hardal leol gyda'r bwriad o gael effaith gadarnhaol ar eu llesiant.
Atal	3.6	Er gwaethaf y galw uchel a'r rhestr aros am asesiadau therapi galwedigaethol, gwelsom rai enghreifftiau o allu'r gwasanaeth i ymateb yn brydlon. Roedd hyn yn cynnwys darparu cyfarpar i hybu annibyniaeth pobl gan eu galluogi i fyw yn eu cartrefi yn hirach.
Atal	3.7	Mae technoleg gynorthwyl, gan gynnwys darparu oriawr arddwrn i fonitro arwyddion iechyd hanfodol pobl a chwmpïadau, yn strategaeth allweddol i gefnogi ymriadau cynnar ac atal. Clywsom hefyd am brosiectau fel y PCC yn rhoi dyfeisiau 'Fitbit' i bobl ifanc i'w hannog i fod yn actif hyd yn oed pan nad oeddent yn ymgysylltu'n uniongyrchol â gwasanaethau. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn datblygu swyddfa i allu arddangos y ddarpariaeth technoleg gynorthwyl.



Atal	3.8	Fel sy'n wir am y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ledled Cymru, mae pwysau sylweddol ar gapasiti'r farchnad gofal cartref yng Ngheredigion. Er gwaethaf y galw hwn, mae rhyddhau cleifion o'r ysybytu mewn modd amserol yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Gwelsom fod y tîm galluogi yn canolbwyntio ar roi cymorth effeithiol i bobl adfer eu hannibyniaeth a'u galluogi i ddychwelyd adref yn unol â'u dymuniadau.
Llesiant	4.1	Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu plant a phobl ifanc ym mhob rhan o'r model LIGO. Roedd y gweithwyr cymdeithasol yn dangos dealltwriaeth dda o hanes a sefyllfa bresennol teuluoedd. Gwelsom weithwyr medrus a chymwys a oedd yn gweithio'n effeithiol i ddiwallu anghenion diogelu plant a phobl ifanc. Mae'r penderfyniadau a wneir mewn perthynas â niwed sylweddol yn glir ac maent yn arwain at gamau gweithredu priodol.
Llesiant	4.2	Caiff plant eu gweld mor aml ag sydd ei angen gan eu gweithiwr cymdeithasol, yn unol â lefelau eu hanghenion a'r risgiau. Cydnabyddir effaith tlodi ar deuluoedd a rhoddir cymorth ariannol rheolaidd i rieni er mwyn iddynt allu mynychu sesiynau cyswllt. Gwelsom enghreifftiau o ymarferwyr yn cynyddu nifer yr ymweliadau, gan gynnwys ymweld ar benwythnosau, ac yn rhoi cymorth dwys er mwyn bwrw ati i leihau risgiau diogelwch. Rhoddodd un rhiant ddisgrifiad pwerus o'r dull gweithredu a oedd ar waith gan nodi bod yr ymarferwyr yn "understanding, actually supporting me and letting me speak". Dywedodd hefyd fod adroddiadau cynadleddau bellach yn cydnabod cryfderau yn ogystal â risgiau. Mae hyn yn ategu ein canfyddiadau bod risgiau amddiffyn plant yn cael eu hystyried yn briodol a'u cydbwysio yn erbyn cryfderau teuluoedd.
Llesiant	4.3	Caiff Cynadleddau Grŵp Teulu eu defnyddio'n rheolaidd ac yn effeithiol i ffurfioli'r cymorth a roddir i rieni/gofalwyr ofalu am eu plant yn ddiogel. Yn yr achosion hyn, caiff canlyniadau da yn aml eu cyflawni ar gyfer y plant. Mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo i gadw plant gyda'u rhieni ac, er nad oedd hynny bob amser yn bosibl, gwelsom ganlyniadau da lle rhoddwyd cyfle i'r plant aros gydag aelodau o'r teulu estynedig. <b>Yn gadarnhaol, clywsom fod y trefniadau ar gyfer Cynadleddau Grŵp Teulu bellach yn cael eu hehangu i gynnwys gwaith gydag oedolion, er mwyn adlewyrchu'r model LIGO.</b>
Llesiant	4.4	Gwelsom enghreifftiau rhagorol o ymarferwyr yn cofnodi eu gwaith dadansoddi a'u rhesymeg gan ddangos eu bod wedi deall yr hyn a oedd yn ofynnol er mwyn helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau. Caiff safbwyntiau plant eu hystyried fel rhan o waith cynllunio a gwaith dadansoddi gwybodus gan weithwyr cymdeithasol i ystyried y risg o niwed. Mae'r cofnodion yn tynnu sylw at gryfderau yn ogystal â nodi'r pryderon a phrofiadau bywyd plant. Gwelsom enghreifftiau rhagorol o asesiadau risg amlasiantaeth, gan ddefnyddio dulliau SOS ac amrywiaeth o adnoddau eraill i hwyluso gwaith uniongyrchol.
Llesiant	4.5	Mewn perthynas â diogelu oedolion, a oedd yn gryfder yn flaenorol, gwelsom rywfaint o amrywiadau yn y cofnodion gofal cymdeithasol a welsom, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos arferion diogelu amserol ac effeithiol a oedd yn gydnaws â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Fodd bynnag, gellid atgyferthu'r cofnodion drwy fynd ati'n gyson i nodi tystiolaeth o'r holl gamau rhesymol a gymerwyd i alluogi'r unigolyn i gymryd rhan yn y broses ddiogel.
Partneriaethau	5.1	Clywsom negeseuon cyson gadarnhaol am y trefniadau gweithio mewn partneriaeth gan y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein harolygiad. Ar lefel strategol, mae'r uwch-arweinydd yn cydweithio i ymdrin â heriau adrannol trawsbynciol. Disgrifiodd un uwch-reolwr y strwythur uwch-reoli fel 'powerhouse' o ran cyflawni nodau. Yn allanol, clywsom am gydberthnasau gwaith rhagorol â'r arweinydd strategol yn y gwasanaethau iechyd cymunedol. Gwelsom dystiolaeth o bartneriaethau a oedd o fudd uniongyrchol i bobl, er enghraifft o ran datblygu cartrefi gofal i blant yng Ngheredigion sy'n golygu y gallant aros yn eu cymunedau eu hunain, a phrosiect Borth, sef cyfarfod amlasiantaeth sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod pobl yn cael y cymorth a'r gefnogaeth cywir ar yr adeg gywir.
Partneriaethau	5.2	Yn weithredol, mae trefniadau integreiddio a chydweithio effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol yn amlwg ar draws timau. Mae strwythurau ar waith sy'n golygu y gall ceisiadau am ofal a chymorth gael eu hystyried mewn ffordd gydgyssylltiedig mewn perthynas â gwasanaethau atal. Mae gwaith integredig â'r gwasanaethau iechyd a ddarperir gan dimau Brysbennu ac Asesu'r Porth Gofal yn sicrhau y gellir cyfeirio pobl tuag at y gweithiwr proffesiynol mwyaf perthnasol mewn modd amserol. Mae hyn yn annog proses o ystyried amgylchiadau pobl a risgiau mewn ffordd gyfannol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau brysbennu yn cael eu gwneud ar sail gwybodaeth. Er enghraifft, o ganlyniad i broses brysbennu effeithiol ac amserol a lwyddodd i atgyfeirio unigolyn at sylw'r tîm galluogi, llwyddwyd i ryddhau'r unigolyn hwnnw'n brydlon o'r ysybytu a rhoi cyfle iddo adennill ei annibyniaeth gartref heb fod angen gofal a chymorth ffurfiol.
Partneriaethau	5.3	Ceir lefelau presenoldeb da gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol mewn fforymau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys cynadleddau amddiffyn plant. Disgrifiodd ymarferwyr y prosesau ymgysylltu yn ystod y cyfarfodydd hyn fel prosesau 'eithriadol' a nodwyd enghreifftiau lle roedd pediatregwyr yn aml yn bresennol. Clywsom fod adroddiadau cynadleddau yn cael eu rhannu fel mater o drefn, ond mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer rhannu cofnodion cynadleddau mewn modd amserol ar ôl y cynadleddau. Roedd tystiolaeth o drefniadau cydweithio â gweithwyr iechyd i'w gweld yn ffeiliau nifer bach o'r plant anabl a welwyd ac o anghytuno iach rhwng gweithwyr proffesiynol ar brydiau.
Partneriaethau	5.4	Mae llawer o drefniadau partneriaeth cadarnhaol gan ysgolion. Er enghraifft, gwelsom lwybr clir a oedd yn galluogi plant sy'n derbyn gofal i gael gafael ar gymorth iechyd emosiynol drwy'r Cynorthwydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) a mentrau mwy cyffredinol fel arolygon i dargedu grwpiau penodol o blant a risgiau cyd-destunol ynghylch materion fel fêpio. Mae'n amlwg bod partneriaethau da ar waith rhwng ysgolion a gweithwyr ieuencid, cwmselwyr ysgol a swyddogion cynhwysiant a bod y partneriaethau hynny o fudd i blant.
Partneriaethau	5.5	Dywedodd staff gwaith cymdeithasol wrthym fod amseroldeb ac ansawdd cyfraniadau partneriaid at asesiadau yn dda. Gwelsom enghreifftiau o drefniadau gweithio mewn partneriaeth amlasiantaethol effeithiol ac ymrwymiad i gefnogi teuluoedd a chadw plant o fewn eu teuluoedd.
Partneriaethau	5.6	Rhodddodd darparwyr adborth cadarnhaol ar eu cydberthnasau â'r tîm comisiynu. Soniwyd y gallai'r broses dendro fod yn heriol, ond nodwyd bod yr awdurdod lleol yn gefnogol ac yn cynnal gweithdai i symleiddio'r broses ac i esbonio'r disgwyliadau. Dywedodd darparwyr hefyd fod y tîm comisiynu yn barod i wrando ar eu barn ac i weithredu er mwyn gwella materion.

Thema	Cyf AGC	Meysydd i'w Gwella	Perche nno	Camau Gweithredu	Erbyn	RAG	Adolygiad Craffu 1	RAG	Adolygiad Terfynol a Chwblhau	RAG
Pobl – llais a rheolaeth	2.8	Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod lleisiau pobl yn greiddiol i'r gwaith y mae'n ei wneud â phobl.	DP	*Bydd hyn yn rhan o adolygiadau thematig y Swyddog Sicrwydd Ansawdd yn ystod y flwyddyn gyntaf, ond tynnir sylw at hyn yn y wybodaeth a roddir i'r rheolwyr fel rhan o'r broses o rannu adborth am yr adroddiad.  *Caiff y polisi cofnodi ei ddiwygio er mwyn cyfeirio'n benodol at y gofyniad i gofnodi'r angen am asesiad gofalwr a'r cynnig sy'n cael ei wneud. *Sefydlu fforwm Profiadau Gofal - bydd y fforwm yn cydweithio â ni i gomisiynu gwasanaethau a datblygu polisiâu a bydd cynrychiolydd o'r fforwm yn rhan o'r cyfweiliadau ar gyfer rolau allweddol. *Sefydlu Grŵp Ymgysylltu â Defnyddwyr yn y Gwasanaethau Oedolion *Grŵp Ymgysylltu Cymorth Estynedig Gydol Oes - is-grwpiau i oedolion a phlant ASE/EJ *Cydweithio ag ysgolion i nodi a chefnogi gofalwyr ifanc mewn addysg.	30.09.2023		Pwylgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach - 22 Tachwedd 2023		Pwylgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach - 11 Mawrth 2024	
Pobl – llais a rheolaeth	2.9	Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ymarferwyr yn cydymffurfio'n gyson â'r ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo llesiant y gofalwr, drwy gynnig asesiadau gofalwyr penodol i bobl er mwyn trafod pa gymorth sydd ei angen arnynt, a chofnodi'r rhesymau dros wrthod asesiad fel mater o drefn.	DP	*Bydd hyn yn rhan o adolygiadau thematig y Swyddog Sicrwydd Ansawdd yn ystod y flwyddyn gyntaf, ond tynnir sylw at hyn yn y wybodaeth a roddir i'r rheolwyr fel rhan o'r broses o rannu adborth am yr adroddiad.  * Cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd Perfformiad am y modd yr ydym yn cydymffurfio â'r gofynion o ran Asesiadau Gofalwyr gan gynnwys y wybodaeth yn y Cynlluniau Busnes. * Adolygu pob dogfen i sicrhau eu bod yn nodi'r angen i gynnig Asesiad Gofalwr  Donna Pritchard fydd y Swyddog Arweiniol dynodedig wrth i'r gwaith datblygu gofalwyr gael ei wneud. Bydd y rôl hon yn cael ei throsglwyddo i'r Porth Cymorth Cynnar pan fydd y Cynllun Gweithredu wedi datblygu'n ddigonol.	30.09.2023					
Pobl – llais a rheolaeth	2.10	Rhaid i'r awdurdod lleol gynyddu'r ddarpariaeth sebiannau byr ledled y sir er mwyn helpu i ddiwallu anghenion llesiant rhieni a gofalwyr.	SH/NL NL NL/ASE	*Mae'r gwaith hwn yn cael sylw fel rhan o'r trafodaethau am Seibiantgarwch / Sebiannau Gofal yn y Grŵp Llywio Gofalwyr, y Gymuned a Heneiddio'n Dda * Mae'r prosiect Dileu Elw yn canolbwyntio ar recriwtio gofalwyr maeth gan gynnwys sebiannau byr. Sicrhau bod gofalwyr wedi cael eu cynrychioli'n briodol wrth gymeradwyo gofalwyr maeth ar gyfer sebiannau byr, Llety â Chymorth a lleoliadau Cysylltu Bywydau fel y gellir gwerthfawrogi anghenion y gofalwr yn llawn. Bydd cynrychiolaeth ar y panel hefyd yn cynnig sicrwydd y bydd y plentyn/perthynas	31.03.2024					
Pobl – llais a rheolaeth	2.11	Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol - Rhaid cyhoeddi'r adroddiad blynyddol hwn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd blwyddyn ariannol.	ASE	* Mae'r broses o gynllunio Adroddiad 2022/23 wedi dechrau ac mae amserlen wedi'i phennu ar gyfer cyflwyno'r adroddiad i'r Pwylgor Craffu, y Cabinet a'r Cyngor cyn ei gyhoeddi yn mis Hydref 2023	31.10.2023		31/10/23		31/10/23	
Pobl – llais a rheolaeth	2.12	Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried ei strategaeth ar gyfer y gweithlu yn y dyfodol yn ofalus er mwyn rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod ganddo weithlu digonol a chynaliadwy, gyda'r capasiti a'r gallu i gyflawni cyfrifoldebau statudol yn gyson.	ASE/GE	* Mae sylw yn cael ei roi i hyn fel rhan o Ffrwd Waith Recriwtio a Chadw Llesiant Gydol Oes ac mae'n cael ei fonitro fel rhan o'r grŵp sy'n cyfrannu at Ffrwd y Rhaglen Llesiant Gydol Oes  * Caiff y Strategaeth ei hadolygu fel rhan o Gynllun diwygiedig y Gweithlu.	30.09.2023		Healthier Community Scrutiny Committee 22 November 2023			
Pobl – llais a rheolaeth	2.13	Dylai'r awdurdod lleol sicrhau y caiff ymarfer ei oruchwylio mewn modd cadarn gan y tîm rheoli ac y cynhelir sgyrsiau myfyriol, gan gofnodi digon o wybodaeth i ddangos y penderfyniadau a wnaed.	ASE Swyddo g. Sicrhau Ansawdd	*Mae gwybodaeth wedi'i rhannu ynglŷn â'r polisi goruchwylio diwygiedig ac mae sylw wedi'i roi i hyn yn y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd * Mae angen cynnal Archwiliad Thematig er mwyn medru deall y darlun llawn  * Mae angen diweddaru'r Polisi Cofnodi	30.06.2023					
Pobl – llais a rheolaeth	2.14	Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ganddo weithlu cymwys a hyderus.		* Caiff Dadansoddiad o'r Anghenion Hyfforddi ei gwblhau bob blwyddyn, ac mae arfarniadau hefyd yn cael eu cwblhau. Bydd yr Arfarniad Blynyddol yn ystyried yr holl anghenion hyfforddi gan gynnwys y rhai gorfodol a'r rhai arbenigol.	30.09.2023					
Pobl – llais a rheolaeth	2.15	Nododd y staff fod cefnogaeth gan gyfoedion o fudd iddynt ac y byddent yn croesawu mwy o gyfleoedd ar gyfer cyswilt wyneb yn wyneb mewn swyddfeydd. Clywsom y gall fod yn anodd trefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb ar gyfer gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant oherwydd diffyg cyfleusterau addas. Roedd hyn yn cynnwys cynadleddau amddiffyn plant lle mae'r teulu wedi nodi y byddai'n well ganddynt gyfarfod wyneb yn wyneb. Mae hyn yn rhywbeth y dylai'r awdurdod lleol ei ystyried.		* Mae'r swyddfeydd bellach ar agor a gall y staff gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb.  * Mae'r lleoliadau ar gyfer Cynadleddau Amddiffyn Plant yn brin ond maent ar gael. Bydd y Rheolwr Tîm Sicrwydd Ansawdd yn cwblhau archwiliad o'r lleoliadau addas sydd ar gael ar gyfer Cynadleddau Amddiffyn Plant a bydd yn cyflwyno'r opsiynau sydd ar gael fel y gallwn eu hystyried.						

Pobl – llais a rheolaeth	2.16	Rhaid i'r awdurdod lleol lunio a gweithredu fframwaith sicrhau ansawdd cadarn.	ASE	* Mae'r ymgynghoriad ynghylch y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd bellach wedi dod i ben ac mae'r adborth a ddaeth i law yn cael ei ystyried. Caiff newidiadau eu gwneud i gryfhau'r dulliau gweithredu lle bynnag bo hynny'n briodol.	30.06.2023						
				* Caiff swydd y Swyddog Sicrwydd Ansawdd ei hysbysebu							
				* Caiff swydd y Swyddog Cymorth Sicrwydd Ansawdd ei hysbysebu							
				* Caiff cynllun gwaith ar gyfer archwiliad thematig ei ddatblygu.							
Pobl – llais a rheolaeth	2.17	Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau yr ymateb i'r gwynion yn gyson yn unol â'r amserlenni a bennir yn "Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014", a bod y gwersi a ddysgir o ymateb i'r gwynion yn ysgogi gwelliannau.	ASE	* Datblygu traciwr ar gyfer adolygu holl gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol fel rhan o gyfarfodydd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol rheolaidd gyda'r Rheolwr Cwynion, er mwyn adolygu ymatebion a sicrhau bod amserlenni yn cael eu gwirredu, o bob persbectif. Bydd y cyfarfodydd adolygu yn cael eu cynnal bob pythefnos.	30.06.2023						
				* Bydd perchnogaeth y traciwr yn gorwedd gyda Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn partneriaeth â'r Rheolwr Cwynion.							
				* Bydd y Swyddog Sicrhau Ansawdd mewn sefyllfa i gasglu a gweithredu'r hyn a ddysgir o gwynion, drwy wersi cyswllt log a ddysgwyr trwy Ddysgu a Datblygu, a thrwy Adolygu Polisiâu							
Atal	3.9	Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu ei drefniadau presennol er mwyn sicrhau bod pobl yn cael ymateb amserol a chyson pan fyddant yn cysylltu ag ef.		* Ailedrych ar y protocol rhwng Clic a'r Timau Brysbennu Porth Gofal a Gwaith Cymdeithasol er mwyn sicrhau mynediad at y rhai sy'n arwain ar achosion	30.09.2023						
				* Angen sicrhau bod adborth yn cael ei roi i'r atgyfeirwyr ar yr adeg y gwneir penderfyniad							
				* Angen nodi Sicrhau Ansawdd thematig ar gyfer y broses.							
Atal	3.10	Rhaid i'r awdurdod lleol gymryd y camau gofynnol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r amserlenni ar gyfer adolygiadau statudol a sicrhau y caiff pob gweithiwr profesiynol perthnasol ei wahodd i gymryd rhan, gan ei fod yn colli'r cyfle i sicrhau bod ei adnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl.	ASE	* Datblygu cynllun gweithredu penodol a rhaglen waith i ddatrys achosion sy'n cronni	30.06.2023						
Atal	3.11	Dylai'r awdurdod lleol barhau i weithio mewn modd strategol a gweithredol gyda'i bartneriaid i ystyried ffyrdd o liniaru'r sefyllfa.	DP	* Mae gweithgor eisoes wedi'i sefydlu ac mae'r broses dendro yn cael ei hadolygu	30.06.2023						
Atal	3.12	Dylai'r awdurdod lleol ymgysylltu â phobl sy'n wynebu anawsterau synhwyraidd er mwyn clywed eu llais a dylanwadu ar y broses o ddatblygu gwasanaethau.	HW	* Mae ffrwd waith Technoleg ac Offer Cynorthwyl yn canolbwntio ar y Gwasanaeth Synhwyraidd gyda'r bwriad o ailgynllunio'r gwasanaeth	31.03.2024						
Atal	3.13	Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn deall y gyfradd ailatgyfeirio uchel, er mwyn i'r arweinwyr allu bod yn dawel eu meddwl bod achosion yn cael eu cau/cyfeirio'n ddiogel.	TJ	* Bydd hyn yn rhan o'r cych biwyddyn gyntaf o adolygiadau thematig i'r Swyddog Sicrhau Ansawdd, ond mae hefyd yn cael ei ddadansoddi ar hyn o bryd fel rhan o'r gwaith barhaus o fonitro'r broses Brysbennu ac Asesu Porth Gofal Plant	31.03.2024						
Atal	3.14	Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i'r broses o ryddhau gorchmynion gofal.	ASE	* Mae eisoes yn rhan o'r Strategaeth Cydweithredu, Dysgu ac Addasu ac yn ymgorffori cynllun clir i gefnogi lleihau neu atal plant rhag cael eu lletya gan yr awdurdod lleol. Mae Gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar yn allweddol yn hyn o beth.	30.06.2023						
				* Ar hyn o bryd mae dirymu penderfyniadau ynghylch 10 o blant yn cael eu hystyried.							
Atal	3.15	Dylid parhau i roi blaenoriaeth i ymdrechion i recriwtio gofawlyr maeth.	NL	* Mae recriwtio Gofal Maeth yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r Grŵp Llywio Plant a'r Gwaith Dileu Elw. Dyrannwyd rhagor o gyllid ychwanegol i Geredigion drwy Faethu Cymru (02.05.2023) er mwyn cryfhau a datblygu'r seilwaith ar gyfer gofawlyr maeth. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar Integreiddio Maethu gyda MyAccount a fydd yn cefnogi'r broses recriwtio er mwyn helpu'r nodwedd adrodd ddyddiol ehangach at ddibenion rhyddhau capasiti.	30.06.2023						
				* Mae Cynllun Ymgysylltu Gofawlyr Maeth yn ei le er mwyn caniatáu rhannu syniadau arloesol rhwng swyddogion a gofawlyr maeth.							
Atal	3.16	Cafwyd sylwadau cymysg gan ddarparwyr y trydydd sector ynghylch trefniadau gweithio mewn partneriaeth gyda rhai yn datgan y gellid cydnabod pa wasanaethau sydd ar gael yn well a gwneud mwy i'w cydgyssylltu ar lefel strategol. Gallai fod o fudd i'r awdurdod lleol gynnal ymarfer mapio i ddeall amrywiaeth gwasanaethau'r trydydd sector gyda'r nod o annog mwy o gydweithio.		* Mae'r Panel Contractau wedi'i sefydlu i fonitro ansawdd ac effeithiolrwydd contractau ac i benderfynu a yw gwerth am arian yn cael ei gyflawni.	30.06.2023						
				* Mae angen i hyn fod yn rhan o adolygiad grantiau'r trydydd sector, gyda'r bwriad o resymoli cyllid. Bydd gwaith y Panel Cysylltiadau yn cynorthwyo i gasglu'r wybodaeth hon at ddibenion rhesymoli.							
				* Dylai Strategaethau Gwasanaethau i Gleientiaid hefyd benderfynu ar yr angen am wasanaethau							
Atal	3.17	Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff cynlluniau eu diweddar'u unol i safonau statudol.	ASE	* Angen deall y problemau sy'n achosi i amserlenni lithro, yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn adroddiadau monitro'r Swyddog Adolygu Annibynnol, yw a yw hyn yn dal yn wir nawr bod Innovate mewn lle. Bydd yn adolygu yn dilyn adrodd ar ddata Ch4 i ddadansoddi'r perfformiad.	30.09.2023						
			ASE	* Angen protocol er mwyn i Ymgynghorwyr Personol wella amserlenni ar gyfer Cynlluniau Llwybr Pobl sy'n Gadael Gofal.							
Liesiant	4.5	Mewn perthynas â diogelu oedolion, a oedd yn gryfder yn flaenorol, gwelsom rywfaint o amrywiadau yn y cofnodion gofal cymdeithasol a welsom, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos arferion diogelu amserol ac effeithiol a oedd yn gydnaws â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Fodd bynnag, gellid atgyfnerthu'r cofnodion drwy fynd ati'n gyson i nodi tystiolaeth o'r holl gamau rhesymol a gymerwyd i alluogi'r unigolyn i gymryd rhan yn y broses ddiogelu.	EU/ASE	Cynhelir adolygiad o'r arferion presennol o'r dechrau i'r diwedd er mwyn asesu effeithiolrwydd yr arferion presennol a nodi unrhyw feysydd y mae angen eu cryfhau er mwyn annog cyfranogiad y person sydd mewn perygl.	30.06.2023						

Llesiant	4.6	Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r trefniadau presennol i sicrhau y caiff canlyniadau atgyfeiriadau eu rhannu â'r unigolyn a roddodd wybod am yr achos ac y caiff cofnodion eu rhannu â'r unigolion a oedd yn bresennol mewn modd amserol.	TJ a'r holl reolwyr sy'n gwneud penderfyniadau	Mae angen sicrhau bod atgyfeirwyr yn cael eu hysbysu ar adeg gwneud penderfyniad o fewn Brysbennu Porth Gofal a bod adborth yn cael ei gofnodi.	30.06.2023					
			ASE/EU	Angen sicrhau bod cofnodion yn cael eu cymeradwyo mewn modd amserol a'u dosbarthu yn ôl yr angen o fewn canllawiau arferion da.						
			TJ	Datblygu cyfres adrodd, hefyd angen canolbwyntio ar ôl-groniad o achosion yn cau						
Llesiant	4.7	Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod trefniadau goruchwyllo cadarn ar waith ar gyfer arferion diogelu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.	ASE/EU	Mae angen ei adolygu						
Llesiant	4.8	Mae'r awdurdod lleol yn rhoi prosesau amddiffyn plant ar waith mewn modd amserol ond rhaid iddo sicrhau y caiff cyfranogiad amlasiantaeth ei ystyried cyn gynted â phosibl.	Bydd pob rheolwr yn cyfrannu at yr archwiliad	Cynnal archwiliad thematig o drafodaethau a chyfarfodydd strategaeth i ddeall lefelau presenoldeb yn unol ag amserlenni statudol.	30.06.2023					
Llesiant	4.9	Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu'r ddogfennaeth sy'n gysylltiedig ag asesiadau oedolion er mwyn sicrhau ei bod yn dilyn yr holl ofynion statudol craidd a amlinellir yn Rhan 3 o'r Cod Ymarfer (Asesu Anghenion Unigolion).	EU/Swyddog Sicrhau Ansawdd	* Ymdrinnir â'r gwaith hwn fel rhan o'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd ac archwiliadau thematig. Mae adolygiad dogfen yn cael ei gynnal o dan y rhaglen ddatblygu Arwyddion Diogelwch.	30.09.2023					
Llesiant	4.10	Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu ei bolisi cofnodi er mwyn cynnwys trefniadau goruchwyllo cadarn gan reolwyr i wneud yn siŵr y caiff pob cofnod ei gynnal yn briodol.	EU/Swyddog Sicrhau Ansawdd	*Adolygiad polisi i fod yn rhan o rôl y Swyddog Sicrhau Ansawdd *Cyfathrebu cyffredinol i reolwyr mewn perthynas â chanlyniad yr arolygiad a'r meysydd dysgu trwy weithdai	30.09.2023					
Partneriaethau	5.7	Ceir tystiolaeth o ymarferwyr yn meithrin cydberthnasau gwaith proffesiynol â phobl ar sail cydweithrediad a dealltwriaeth a rennir o'r hyn sy'n bwysig. Fodd bynnag, mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â phobl a gofalwyr ar ganlyniadau a gaiff eu llunio ar y cyd mewn rhai meysydd gwasanaeth. Fel y crybwyllwyd eisoes yn gynharach yn yr adroddiad, mae angen cynnwys asesiadau ac egwyddorion Deddf 2014 fel rhan amlcych o ymarfer, yn enwedig wrth gwblhau asesiadau cymesured. Ar adegau, caiff y cymorth ei arwain gan y gwasanaeth a'i roi ar ffurf weithredol yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig a'r canlyniadau y mae'r unigolyn am eu cyflawni.	Bydd pob rheolwr yn cyfrannu at yr archwiliad	Cynhelir archwiliadau thematig er mwyn mesur mewnbwn teuluoedd i'w cynlluniau, a chymesured asesiadau.						
Partneriaethau	5.8	Dylai'r awdurdod lleol adolygu ei strategaeth gyfathrebu er mwyn sicrhau bod ei fodel yn ddealladwy ac yn hygyrch.		Dolen i Ffrwd Waith Cyfathrebu - Datblygu gwefan	30.09.2023					
Partneriaethau	5.9	Ar y cyfan, mae darparwyr o'r farn bod yr awdurdod lleol wedi bod yn glir ynghylch ei weledigaeth o'r model LIGO. Fodd bynnag, nawr bod y broses ailstrwythuro wedi'i chwblhau, nid yw rhai ohonynt yn glir ynghylch y sefyllfa bresennol o fewn rhai timau. Dylai'r awdurdod lleol ystyried rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w bartneriaid am y trefniadau gweithredol presennol.		* Cynllun Cyfathrebu i gael ei ddiweddar, i sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r strwythur newydd a rolau timau a gwasanaethau o fewn y model. Bydd diweddarw'r wefan o gymorth yn y maes hwn. Byddwn yn ystyried hwyluso gweithdy ar draws Llesiant Gydol Oes ar gyfer darparwyr trydydd sector.						
Partneriaethau	5.10	Nododd rhai darparwyr nifer y gweithwyr asiantaeth a oedd yn gweithio fel rhan o rai o'r timau, a all effeithio ar ansawdd atgyfeiriadau ac sydd wedi atal cyfarfodydd rhag cael eu cynnal pan nad yw'r gweithwyr wedi'u lleoli yng Ngheredigion. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau nad yw penderfyniadau i gyflogi staff asiantaeth sy'n gweithio y tu allan i Geredigion yn achosi unrhyw rwystrau neu oedi o ran rhoi cymorth i bobl.	Rheolwr yr Corfforaethol	Bydd cylch gorchwyl yn cael ei adolygu ar gyfer pob cyfarfod Gofal a Llesiant Gydol Oes, a chytuno ar y dull gweithredu parhaus o gynnal cyfarfodydd hybrid.						

## Tudalen 29

Y cynnig o ran asesu Gofalwyr a chynlluniau cymorth

Llais - gofalwyr ifanc, oedolion sydd wedi dioddef camdrin honedig

Ail-atgyfeiriadau

# Tudalen 30

Polisi Cofnodi  
Polisi Gofalwyr

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

<b>ADRODDIAD I'R:</b>	<b>Pwyllgor Craffu Cymunedau Iachach</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>24 Mai 2023</b>
<b>LLEOLIAD:</b>	<b>Hybrid/Siambr y Cyngor</b>
<b>TEITL:</b>	<b>Trefniadau Cydweithio Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau Mabwysiadu a Maethu Cymru (awdurdod lleol).</b>

**PWRPAS YR ADRODDIAD:**

1. Rhoi'r diweddaraf ynglŷn â'r cynigion ar gyfer datblygu'r llywodraethiant a'r galluogi ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru wrth iddo gymryd cyfrifoldeb am Faethu Cymru.
2. Dod i gytundeb i lofnodi Cytundeb y Cydbwyllgor ar gyfer y Cyd-bwyllgor arfaethedig.
3. Ceisio cytundeb i symud ymlaen drwy'r prosesau llywodraethu

**RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR ADRODDIAD:**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r cyd-destun a'r wybodaeth sylfaenol sydd eu hangen i gytuno i lofnodi'r cytundeb.

**CEFNDIR:**

Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi bodoli ers 2014 ac mae wedi galluogi newid a gwelliant sylweddol mewn gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru. Roedd pob cyngor bryd hynny wedi cytuno ar ei strwythur a'i lywodraethiant drwy drefniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol; arweiniodd adolygiad yn 2018 at gynigion i symleiddio llywodraethiant a gwella atebolrwydd. Mae rhai o'r rhain e.e. creu Bwrdd Llywodraethu Cyfunol (sy'n dod â'r Grŵp Cyngori a'r Bwrdd Llywodraethu sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth ynghyd) a Chytundeb Partneriaeth newydd i ddisodli'r model swyddogaethol gwreiddiol eisoes wedi'u rhoi ar waith.

Mae sefydlu Maethu Cymru yn rhoi'r cyfle i uno'r trefniadau ar gyfer mabwysiadu a maethu yn un gyfarwyddiaeth yn weithredol a'r llywodraethiant ar gyfer y ddau weithgaredd i'w uno.

**LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:**

**A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad Nac oes oes, dywedwch pam**

**Crynodeb:**

Nid oes dim newidiadau i wasanaethau sy'n bodoli eisoes heb ddim gwahaniaeth yn yr effaith ar y gymuned.

**Hirdymor:****Integreiddio:****Cydweithio:****Cynnwys:****Atal:****ARGYMHELLIAD:**

Ceisio cytundeb bod Ceredigion yn llofnodi Cytundeb y Cyd-bwyllgor ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru.

Bod y papur hwn yn mynd drwy'r prosesau llywodraethu llawn i'w gymeradwyo'n llawn.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**

Bydd cytuno ar y cynigion hyn a llofnodi Cytundeb y Cyd-bwyllgor yn rhoi cydweithrediad Cyngor Sir Ceredigion yn y trefniadau cydweithio hyn ar sail ffurfiol yn ogystal ag egluro rolau a chyfrifoldebau ar gyfer cynnal a chyflawni swyddogaethau cenedlaethol sy'n cefnogi ac yn galluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu cyfrifoldebau mabwysiadu a maethu.

**Enw cyswllt: Audrey Somerton-Edwards,**

**Swydd: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro, Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol Dros Dro'r Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Dyddiad yr Adroddiad: 18 Ebrill 2023**

**Acronymau: Ni ddefnyddiwyd dim un**



## Adroddiad Pwyllgor Craffu Cymunedau Iachach

24 Mai 2023

---

### Trefniadau Cydweithio Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu a Maethu (awdurdodau lleol) Cymru

### Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru a Maethu Cymru – Cyfoethogi Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Galluogi

---

#### Rheswm dros yr Adroddiad hwn

1. Rhoi'r diweddaraf ynglŷn â'r cynigion ar gyfer datblygu'r llywodraethiant a'r galluogi ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru wrth iddo gymryd cyfrifoldeb am Faethu Cymru
2. Dod i gytundeb i lofnodi Cytundeb y Cydbwyllgor ar gyfer y Cyd-bwyllgor arfaethedig

#### Cefndir

3. Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi bodoli ers 2014 ac mae wedi newid a gwella gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru yn sylweddol. Cytunodd pob Cyngor ar ei strwythur a'i drefniadau llywodraethu drwy drefniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol bryd hynny; arweiniodd adolygiad yn 2018 at gynigion i symleiddio'r trefniadau llywodraethu a gwella atebolrwydd. Mae rhai o'r rhain eisoes wedi'u gweithredu e.e. creu Bwrdd Llywodraethu Cyfunol (gan ddod â'r Grŵp Cynghori a'r Bwrdd Llywodraethu sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth at ei gilydd) a Chytundeb Partneriaeth newydd i ddisodli'r model swyddogaethol gwreiddiol.
4. Yn ôl y cyngor cyfreithiol a gafwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), roedd angen rhoi sail ffurfiol i'r cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol Cymru er mwyn i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol weithredu'n effeithiol ar ran pob un o'r 22 awdurdod, ac er mwyn rhoi trefniant cynnal cadarn i'r awdurdod lletyol (Caerdydd) ar gyfer y swyddogaethau cenedlaethol a galluogi. Dewis CLILC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CCGCC) oedd y dylai hyn ddigwydd drwy Gyd-bwyllgor. Mae'r gwaith ar sefydlu Cyd-bwyllgor Cenedlaethol, i roi grym go iawn i'r cydweithrediad a goruchwyliaeth gan bob un o'r 22 awdurdod lleol, wedi parhau ac mae'n barod i'w weithredu.
5. Ers 2015, mae Cyfarwyddwr a thîm canolog y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi bod yn cefnogi gwaith y Fframwaith Maethu

Cenedlaethol (FfMC) i greu trefniant cydweithredol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol tebyg i wella gwasanaethau maethu Cymru, er nid drwy greu gwasanaeth maethu cenedlaethol. Mae Maethu Cymru bellach wedi'i greu o FfMC a bydd yn cefnogi ystod ddiffiniedig o swyddogaethau maethu sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw gofalwyr maeth awdurdodau lleol. Drwy gydol y cyfnod hwn, roedd CLILC ac CCGCC fel cyrff arweiniol am i'r swyddogaethau cenedlaethol ar gyfer maethu fod yn gysylltiedig â swyddogaethau cenedlaethol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i leihau dyblygu a chostau yn ogystal â sicrhau'r cydnerthedd, yr hyblygrwydd a'r hirhoedledd mwyaf posibl ar draws y ddwy swyddogaeth.

6. Mae'r Cyd-bwyllgor arfaethedig a'r cytundeb sy'n sail iddo wedi'u hystreyn i gynnwys Maethu Cymru yn yr un modd â'r capasiti a'r swyddogaethau ar gyfer galluogi a chydweithio'n genedlaethol drwy Dîm Canolog cyfunol. Mae'r cysylltiad â'r Cyd-bwyllgor yn hanfodol i Faethu Cymru o ystyried y diffyg sail ddeddfwriaethol sydd ar gyfer cydweithredu o'r fath ar gyfer gwasanaethau maethu.

### **Llywodraethu - Sefydlu Cyd-bwyllgor**

7. Cyflwynir y strwythur llywodraethu arfaethedig drwy ddiagram a chyda naratif yn Atodiad un. Bydd y Cyd-bwyllgor cenedlaethol, ar ran y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru, yn arfer ei bwerau i ddarparu'r trefniadau cydweithredol ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru ac ar gyfer Maethu Cymru. Bydd yn cynnwys aelodau'r Cyngor fydd yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.
8. Mae cyfreithwyr CLILC wedi drafftio Cytundeb cyfreithiol ar gyfer y Cyd-bwyllgor i'w lofnodi gan bob un o'r 22 awdurdod lleol; mae hwn bellach yn barod i'w symud yn ei flaen ac mae ar gael ochr yn ochr â'r adroddiad hwn. Mae hyn hefyd yn cynnwys Cynllun Dirprwyo ffurfiol a darpariaeth ar gyfer y cytundeb ffurfiol gyda'r awdurdod lleol sy'n derbyn ar gyfer swyddogaethau cenedlaethol.
9. Bydd y Cyd-bwyllgor yn darparu'r mecanwaith i holl awdurdodau lleol Cymru gyflawni rôl weithredol a goruchwyllo ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru. Bydd yn cymeradwyo / derbyn:
  - Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru;
  - Y rhaglen waith flynyddol ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac ar gyfer Maethu Cymru;
  - Y gyllideb ar gyfer swyddfa'r Cyfarwyddwr a gwaith cenedlaethol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru; ac
  - Y cytundeb, ac unrhyw newidiadau i'r cytundeb, ar gyfer cefnogaeth yr awdurdod lletyol tuag at swyddfa'r Cyfarwyddwr a gwaith cenedlaethol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru.

Ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn unig, bydd hefyd yn goruchwyllo sut mae'r awdurdodau'n gweithio gyda'i gilydd i arfer eu pwerau a chydymffurfio â Chyfarwyddiadau'r Cynulliad Cenedlaethol.

### **Galluogi - Seilwaith cenedlaethol**

10. Cynigir strwythur swyddogaethol sydd, o dan y Cyfarwyddwr, â swyddogaethau arweiniol ar wahân ar gyfer mabwysiadu a maethu, ond â swyddogaeth fusnes a galluogi gyfun sy'n cefnogi'r ddau. Disgrifir yr ystod o swyddogaethau a gyflawnir yn Atodiad Dau gyda strwythur staffio o 9.5 staff c.a.ll. (gan gynnwys y Cyfarwyddwr.)
11. Darperir y cyllid craidd ar gyfer swyddogaethau cenedlaethol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru drwy ailddyrranu cyfran o gyllid y Grant Cynnal Refeniw sydd ar gael drwy CLILC. Mae'r dyraniad hwn, sef £473,000 y flwyddyn ar hyn o bryd ar gyfer mabwysiadu a £400,000 y flwyddyn ar gyfer maethu, yn amodol ar gytundeb pwyllgor perthnasol CLILC yn gyfnodol. Dyfarnwyd cyllid grant Llywodraeth Cymru i Faethu Cymru hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023 i ariannu dibenion penodol, sef £573 ar gyfer 2021/22 gan ostwng ychydig ar gyfer 2022/23. Er bod buddsoddiad Llywodraeth Cymru ar gael i'r gwasanaeth mabwysiadu, mae hyn yn cael ei ddefnyddio'n llawn ar gyfer darparu gwasanaethau uniongyrchol drwy'r strwythur rhanbarthol. Mae adnoddau yn nyraniadau CLILC Maethu Cymru a chymorth grant Llywodraeth Cymru i Faethu Cymru sy'n ariannu swyddi'n rhannol ar sail ranbarthol i gefnogi gweithgareddau awdurdodau lleol yn uniongyrchol.
12. Cyfanswm cost y strwythur cenedlaethol arfaethedig yw £586,384 ar gyfer cyfraddau cyflog 2021/22. Cyfanswm y gyllideb graidd sydd ar gael ar draws y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru ar gyfer 2021/22 yw tua £1,449,000 er bod dros hanner ffrwd gyllido Maethu Cymru yn ddarostyngedig i amodau grant Llywodraeth Cymru at ddibenion penodol fel y nodir uchod.
13. Mae'r strwythur yn fforddiadwy hyd at ddiwedd cyfnod Grant Llywodraeth Cymru (31.03.23) ond mae pwysau ar gyllidebau staffio a gweithredu ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru y tu hwnt i hynny. Mae'r pwysau ariannol wedi'u nodi i Lywodraeth Cymru, ond mae gwaith yn dechrau i ystyried sut i ddatrys hyn y tu hwnt i'r cyfnod cymorth grant presennol. Bydd datrys hyn yn gofyn am ymrwymiad Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru.
14. Mae'r cynigion a amlinellir yn cael eu datblygu er mwyn ffurfioli a chyfnerthu sefyllfa bresennol y Tîm Canolog mewn perthynas â'r gwaith y mae'n ei wneud ar hyn o bryd i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac ar gyfer Maethu Cymru. Bydd hyn yn caniatáu i drefniadau cydweithredol barhau i weithredu a bodloni cynlluniau ac ymrwymadau y cytunwyd arnynt yn y tymor byr i'r tymor canolig.

### **Ymgysylltu â rhanddeiliaid**

15. Mae aelodau awdurdodau lleol wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy CLILC, yn fwyaf diweddar, ym mis Medi 2021 drwy Rwydwaith Aelodau'r Cabinet (gofal cymdeithasol ac iechyd) a Chyngor CLILC.
16. Mae Bwrdd Llywodraethu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, Penaethiaid Arweiniol Maethu Cymru Gwasanaethau Plant a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol drwy CCGCC wedi cytuno ar y cynigion hyn mewn egwyddor.
17. Mae'r cynigion wedi'u llywio a'u datblygu gydag ymgysylltiad llawn y grwpiau rhanddeiliaid allweddol hyn.

### **Goblygiadau Ariannol**

18. Fel yr amlinellir uchod, darperir cyllid ar gyfer y trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth a galluogi canolog / cenedlaethol gan CLILC drwy ailddyrrannu cyfran o gyllid y Grant Cynnal Ardrethi ynghyd â chyllid grant gan Lywodraeth Cymru. Nid oes disgwyl y bydd cynghorau unigol yn wynebu costau ychwanegol mewn perthynas â'r swyddogaethau hyn.

### **Goblygiadau Cyfreithiol**

I'r cyd-destun hwn, mae "Strategaeth Lles Gydol Oes 2021-2027" yn nodi ein cynlluniau i gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar gwrs bywyd unigolion yn hytrach na chael eu pennu gan gategoriâu oed. Gall y dull gweithredu hwn gynnig mwy o barhad wrth gynorthwyo pobl i fod yn gydnherth a chynnal eu hannibyniaeth yn eu cartref eu hunain.

Mae'r farchnad ar gyfer gofal cartref i bobl hŷn yn cyflwyno'r risg fwyaf ar hyn o bryd o ran ansefydlogrwydd y farchnad, wrth i'r pwysau ar y gweithlu barhau i dyfu ac wrth i'r cymhlethdod o ran yr angen gynyddu, ac mae'r prisiau a delir am ofal ar draws Cymru a'r DU yn ei chael hi'n anodd cystadlu am staff gyda sectorau eraill megis manwerthu a thwristiaeth a thâl mwy cystadleuol.

Mae'r segment hwn o'r farchnad wedi gweld Ceredigion yn cymryd mwy o oriau cartref mewnol a chymorth pontio a galluogi dros y 3 blynedd ddiwethaf. Gall cynorthwyo'r farchnad gyda lefel o wasanaethau mewnol helpu i sicrhau mynediad i'r cymorth cywir yn lleol, yn ogystal ag ychwanegu gallu mewnol i gynorthwyo datblygiad y farchnad. Ar yr un pryd, cydnabyddir yn eang bod rôl y sector darparwyr annibynnol yn parhau i fod yn dyngedfennol – a'r farn allweddol yw pennu'r cydbwysedd delfrydol rhwng darpariaeth fewnol ac annibynnol.

Yng Ngheredigion, mae'r ddarpariaeth gofal cartref yn parhau i gael ei bodloni trwy gyfrwng Fframwaith y System Brynu Ddynamig (DPS) er mwyn caffael y gwasanaethau ar gyfer

defnyddwyr gwasanaeth unigol. Hysbysebwr y pecynnau gofal gan ddefnyddio proses e-Dendro. Mae'r holl ddarparwyr yng Ngheredigion wedi cofrestru â'r Fframwaith DPS ar ôl mynd trwy gyfres o feini prawf cymhwyso ar ffurf gofynion hanfodol, ac yna, gallant contractio am wasanaethau gyda Chyngor Sir Ceredigion.

Ar ôl i weithiwr cymdeithasol nodi anghenion gofal cymwys yn dilyn Asesiad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, gwneir cais am wasanaeth. Ar ôl ei gadarnhau, caiff hysbysiad ei roi ar y Porth Caffael e-dendro, sef edendrocymru. Yna, gall y darparwyr sydd wedi cofrestru i ddarparu gofal yng Ngheredigion ystyried y pecynnau gofal sy'n ofynnol yn y gymuned, gan gyflwyno cynigion er mwyn darparu'r gofal hwnnw. Gwneir y cynigion hyn i'r teulu ac ar ôl eu derbyn, trefnir gofal i ddechrau. Os bydd teulu yn gwrthod y cynnig (er enghraifft os na fydd yr amseroedd gofal yn bodloni eu dewisiadau personol ac os na fydd modd sicrhau cyfaddawd), bydd y cais am ofal yn parhau yn y system gaffael wrth aros am gynnig amgen. Efallai y bydd angen angen 2 aelod o staff hyd at 4 gwaith y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, 52 wythnos y flwyddyn ar anghenion gofal pecyn gofal a chymorth ar gyfer anghenion gofal cymhleth iawn, a bydd anghenion gofal eraill yn amrywio hefyd ar draws y sbectwm anghenion i ymyriadau ar lefel is unwaith neu ddwywaith yr wythnos er mwyn cynorthwyo gyda chael bath/cawod er enghraifft. Mae Gofal a Chymorth yn y cartref yn canolbwyntio ar ddarparu sgiliau er mwyn darparu anghenion gofal a chymorth personol.

## **Mentrau Ceredigion er mwyn cynorthwyo'r Farchnad Gofal Cartref o 2022/3 ymlaen**

### **1. Fframwaith Gofal Cartref – Aildendro**

Mae comisiynu gofal cartref mewn sir wledig ac arfordirol fel Ceredigion wastad wedi bod yn heriol. Roedd datganiad sefyllfa y farchnad gofal cartref yn dangos y sialensiau parhaus a'r problemau cynyddol wrth recriwtio a chadw staff. Cydnabuwyd hefyd bod y ffioedd a delir i ddarparwyr gofal yng Ngheredigion yn ei chael hi'n anodd cadw ar yr un lefel â'r ffioedd a delir mewn awdurdodau cyfagos a'r ffaith bod asiantaethau posibl ar y ffin yn gallu dewis o blith cyfraddau comisiynu awdurdodau eraill, gweithgarwch comisiynu y bwrdd iechyd ac arianwyr preifat. Effeithiwyd yn fawr ar y sector gofal ar ôl y pandemig ac mae staff gofal yn cael eu denu i gyflawni rolau sy'n gofyn llai ohonynt am fwy o arian ac amodau a thelerau gwell y tu allan i faes gofalu. Gwelir bod gweithio dan amgylchiadau anodd, a chan gyflawni'r rôl bwysicaf mewn cymdeithas, ond am gyflogau is ac amodau a thelerau gwaeth na'r hyn a welir mewn sectorau eraill, yn rhwystr posibl wrth gynllunio gweithgarwch recriwtio, cadw, gyrfaoedd ac olyniaeth.

### **Ystyried Cyfraddau Ffioedd Newydd**

Ar ôl mabwysiadu System Brynu Ddynamig er mwyn caffael gofal cartref, roedd gwahanol ddarparwyr wedi cytuno ar gyfraddau ffioedd. Bu ceisio osgoi dewis y pris ar draul ansawdd yn heriol, yn ogystal â sicrhau bod gofal ar gael mewn ardaloedd gwledig, yn ogystal â'r ardaloedd trefol mwy poblog. Mae'r Gymdeithas Gofal Cartref (HCA, Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig, UKHCA, yn flaenorol) yn cyfrifo ffi deg ar gyfer darparu gofal, gan gyhoeddi hon bob blwyddyn, fel un gyfradd ar gyfer y DU yn hanesyddol. Cydnabuwyd bod cyfraddau ffioedd Ceredigion yn is na'r gyfradd a argymhellwyd gan HCA. Ar ôl ystyried y cyfrifiad hwn, penderfynwyd datblygu Adduned Ceredigion fel rhan o'r Fframwaith Gofal

Cartref ac ymarfer Tendro Gofal Cartref 2023 er mwyn datblygu ymrwymiad Model Gwerth Cymdeithasol.

## **Cytundeb Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer 2023/4**

Mae sicrhau cyfraddau ffioedd teg yn un o gonglfeini'r strategaeth hirdymor ar gyfer cynladwyedd gofal cartref yng Ngheredigion. Roedd sicrhau y byddai mabwysiadu cyfraddau ffioedd uwch yn arwain at y staff gofal eu hunain yn cael budd a bod amodau a thelerau cyflogeion yn gwella yn rhan hanfodol. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gweld gwerth 'Punt Ceredigion' a'r ffaith y dylid gwario arian y Cyngor, pan fo modd, yng Ngheredigion er budd pobl Ceredigion, gyda'r arian hwnnw yn cylchredeg trwy economi Ceredigion a Chymru. Ar ôl ystyried goblygiadau cyllidebol ehangach, cefnogwyd a chymeradwywyd y cynigion ar gyfer cyfradd Gofal Cartref 2023/24.

## **2. Adduned Ceredigion**

Rydym wedi sefydlu Adduned 15 Pwynt fel rhan o'r Fframwaith Gofal Cartref 2023 newydd (sydd ynghlwm fel papurau cefndir). Ein nod yw talu cyfradd i'r holl ddarparwyr gofal cartref sy'n cyd-fynd yn fwy gyda'r gyfradd yr awr a argymhellir gan y Gymdeithas Gofal Cartref (HCA). Yng Nghymru, mae'r gyfradd ar gyfer 2023/24 wedi cynnwys taliadau hyfforddi llawn ar gyfer amrediad y ffioedd a'r amser hyfforddiant, ac rydym yn cydnabod nad yw'r cyfrifiad hwn yn adlewyrchu sefyllfa yr amgylchedd hyfforddiant cyfredol ar draws y sector yn llawn. Fodd bynnag, cydnabuwyd egwyddorion gosod cyfradd HCA yn y gyfradd a gymeradwywyd ar gyfer 2023/24. Byddwn yn adolygu'r ffioedd bob blwyddyn, a byddant yn dod i rym ym mis Ebrill bob blwyddyn fel arfer. Efallai y caiff y gyfradd ei newid yn dilyn adolygiad, a gallai'r newid hwn fod yn godiad neu'n ostyngiad i'r gyfradd. Pan fo polisi Llywodraeth Cymru neu ffactorau sydd wedi'u hymgorffori ym mholisi neu ddeddfwriaeth y DU yn llywodraethu elfennau sy'n cyfrannu at y gyfradd, bydd y Cyngor yn sicrhau bod newid priodol yn cael ei wneud i'r gyfradd. Pan fo elfennau o'r gyfradd yn ymwneud yn fwy â chostau cyffredinol, ystyrir mynegai chwyddiant briodol a gyhoeddwyd fel rhan o'r adolygiad ar gyfer yr elfennau hynny, h.y. ystyried a dadansoddi'r dadansoddiad o gyfraddau argymelledig HCA ar draws y DU a gwneir penderfyniad rhesymol a theg gan ystyried y dadansoddiad cymharol i Gymru a chenedloedd eraill y DU.

Ar gyfer 2023/24, mae'r ffi wedi codi i £26.50 yr awr, gan arwain at rai darparwyr yr oeddent wedi gwneud cais trwy gyfrwng y System Brynu Ddynamig yn flaenorol ar gyfraddau isel, yn cael ymgodiad sylweddol yn 2023. Mae gan y Cyngor ddisgresiwn i dalu cyfradd estynedig am becynnau sy'n bodloni set o feini prawf a ddiffiniwyd ymlaen llaw. Os bydd pecyn cymorth yn berthnasol ar gyfer y gyfradd hon, caiff hyn ei ddynodi pan hysbysebir yn gofyn i bobl fynegi diddordeb mewn pecynnau trwy gyfrwng porth eDendroCymru.

Y nod, gydag amser, yw sicrhau'r gyfradd HCA i Gymru i'r holl ddarparwyr, mewn ffordd ymarferol, ar sail dadansoddiad cymharol o'r costau ar draws y cenedloedd er mwyn sicrhau'r safonau a'r amodau a thelerau gorau ar gyfer y staff gofal.

## **Buddion i Ymgynraedd atynt**

Mae'n bwysig bod y Cyngor yn cael ei alluogi i reoli'r sefyllfa ariannol mewn ffordd briodol a bod darparwyr yn gallu bodloni safonau Adduned 15 Pwynt Ceredigion fel ymrwymiad craidd a sylfaenol dan yr Amodau a Thelerau a'r Contract Gofal Cartref DPS newydd. O fframwaith 2023/24, rhaid i'r holl ddarparwyr gyflawni'r safonau hyn, gan sicrhau'r ymgodiad llawn ar y dechrau. Y bwriad yw y bydd yr holl staff gofal yng Ngheredigion yn cael tâl sy'n ceisio adlewyrchu gwerth eu llafur a bod eu hamodau a thelerau gwaith yn cael eu gwella. Bydd recriwtio yn galluogi twf o ran nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n ymgeisio am rolau gofalu, bydd yn lleihau'r anghydbwysedd rhwng y tâl rhwng y ddau ryw a bydd yn hyrwyddo gofal fel llwybr gyrfa hirdymor.

### **3. Taliadau Cynllun Cadw 2022/23**

Yn hanesyddol, pan fu'n rhaid i ddefnyddiwr gwasanaeth fynd i'r ysbyty neu gael gofal seibiant, ni fyddai'r darparwr yn cael unrhyw daliad am y cyfnodau hynny. Mae hyn yn golygu y byddai staff yn cael eu neilltuo i gleientiaid eraill a oedd yn aros am ofal, boed y rhain yn gleientiaid preifat, yn geisiadau wedi'u comisiynu gan y bwrdd iechyd neu'n gleientiaid gofal cymdeithasol eraill. Pe baent yn cadw'r lle nes i'r unigolyn ddychwelyd, byddai hyn yn cael effaith ariannol sylweddol ar gynladwyedd y busnes, a gostyngiad i'r llif arian a'r incwm. Datblygwyd y Cynllun Cadw yn y lle cyntaf fel cynllun peilot, gyda meini prawf penodol ar gyfer amgylchiadau a) defnyddiwr gwasanaeth yn gorfod mynd i'r ysbyty b) gofal seibiant i ffwrdd o'r cartref c) galwadau wedi'u canslo mewn ffordd a gynlluniwyd o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn cael gofal seibiant mewn cartref gyda theulu am gyfnodau o hyd at 14 diwrnod. Y bwriad oedd sicrhau bod y darparwr yn parhau i dalu'r staff a sicrhau eu bod ar gael i ailgychwyn y pecyn gofal wedi'i gadw yn brydlon ar ôl yr alwad gyntaf ar ôl eu rhyddhau, ar ôl iddynt ddychwelyd o ofal seibiant, neu ar ôl i'r teulu adael a'r angen am ofal yn ailgychwyn. Yr amcan oedd gwella'r llif mewn ysbytai, sicrhau parhad o ran gofal a chymorth teg a chyfartal i weithwyr gofal a chynnig gweithgarwch cynllunio parhad ariannol gwell i'r busnes. Gwerth cyfan gwbl y taliadau a wnaethpwyd i ddarparwyr mewn perthynas â'r cynllun hwn yw £55,800. Bu'r adborth am y fenter hon yn hynod gadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth, staff gofal, rheolwyr y darparwr a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Bellach, mae wedi cael ei ymwreiddio yn amodau a thelerau'r Fframwaith newydd o fis Mehefin 2023.

### **4. Atodiad Premiwm Tanwydd a Chyfleoedd Grant**

Roedd Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod cyllid ar gael i gynorthwyo darpariaeth gwasanaethau gofal cartref yn benodol. Un o'r materion mwyaf dybryd a godwyd gan ddarparwyr oedd cost uchel tanwydd a chytunodd y Cyngor gynnig £2 yr awr yn ychwanegol fel Atodiad Premiwm Tanwydd, a fyddai'n dod i rym o 22/08/2022. Rhoddwyd y cyllid ar sail yr egwyddorion canlynol:

Roedd y cyllid ychwanegol yn gyfraniad a oedd yn cydnabod effaith prisiau tanwydd i Ddarparwyr sy'n wynebu costau teithio fel rhan o'u gwasanaeth craidd. Cytunodd darparwyr dalu cyfraddau milltiroedd i'w staff sy'n cyd-fynd gyda chyfradd CThEF o 45c y filltir, neu nad yw'n is na'r gyfradd hon. Roedd gan ddarparwyr hyblygrwydd o ran y ffordd y byddai'r Atodiad Premiwm Tanwydd hwn yn cael ei drosglwyddo i'w staff (e.e. Cyfraddau yr awr uwch,

cyfraddau milltiroedd uwch, taliad teithio ar ffurf cyfandaliad). Y disgwyliad oedd y dylid trosglwyddo'r cyllid i'w staff yn llawn. Byddai'r cyllid yn amrywiol, a byddai gan y Cyngor y dewis o adolygu'r Atodiad Premiwm Tanwydd bob 8 wythnos, ar sail data ynghylch prisiau tanwydd a gyhoeddir. Gosodwyd cyfyngiad ar hyd y cyfnod pan fyddai'r cyllid ar gael, i tua 31/03/23 ac argaeledd cyllid LIC. Cyfanswm y taliadau a wnaethpwyd i ddarparwyr mewn perthynas â'r cynllun hwn oedd £171,300 a oedd yn ymwneud â Phremiwm Tanwydd, ac mae taliadau am gyfleoedd grant eraill yn mynd trwy'r broses hawliadau.

### 5. Cyfarpar Diogelu Personol

Trwy gydol y pandemig, ac yn ystod y cyfnod adfer yn dilyn y pandemig, rheolwyd cyflenwadau PPE yn ganolog a chadwyd cyflenwadau trwy'r Hyb PPE yn y Ganolfan Byw Bywyd Annibynnol, Felin-fach, fel rhan o'r Gwasanaeth Offer ar y Cyd Integredig, ac maent wedi cydlynu'r broses archebu ganolog a dosbarthu PPE i'r Sector Gofal ar draws Ceredigion. Mae'r Hyb PPE fel gwasanaeth cydlynu canolog wedi bod yn llwyddiant arwyddocaol, gan sicrhau cysondeb, hyblygrwydd a chyflymder o ran yr ymateb trwy gydol y cyfnod, ac mae wedi bod ac yn parhau i fod yn fodel darparu corfforaethol a werthfawrogi yn fawr iawn gan y Sector Gofal.

### Darpariaeth PPE Gofal Cartref 2022-23

Nifer y Bocsys Menig (100)	Nifer y Rholiau Ffedogau (100)	Nifer y Bocsys masgiau (50)	Nifer y Feisorau Wyneb Llawn	Nifer y cyflenwad Hylif Diheintio Dwylo (500ml)
11455	2239	2397	169	169

### 6. Hyb

#### Darparwr

Trwy gydol y pandemig, cynhaliom gyfarfodydd rhwydwaith rheolaidd gyda'r darparwyr Gofal Cartref er mwyn rhannu gwybodaeth a chynnig cymorth, arweiniad a chynngor i ddarparwyr. Fel rhan o'r cymorth hirdymor ar gyfer y sector ar ôl y pandemig, rydym wedi ymwreiddio rhaglen o gyfarfodydd misol. Y bwriad yw creu cymuned o arfer, dysgu a gwella er mwyn ymwreiddio'r fframwaith newydd, rhannu datblygiadau sy'n dod i'r amlwg ac annog cydweithio rhagweithiol yn unol ag amcanion model gwerth cymdeithasol y Fframwaith. Estynnir gwahoddiad i siaradwyr rheolaidd ar draws rhaglenni Lles Gydol Oes er mwyn annog cydweithio ehangach a chydweithio agosach. Rhennir gwybodaeth leol a chenedlaethol ac mae'n gweithredu fel pont ymgysylltu ar ystod eang o fentrau. Mae darparwyr wedi adrodd i'r awdurdod ac i Arolygiaeth Gofal Cymru bod y bartneriaeth gyda Cheredigion yn un hynod o ragweithiol o ran darparu cymorth ac arweiniad. Ein bwriad yw datblygu'r Hyb ymhellach fel y bydd cyfleoedd cyllido yn caniatáu ac rydym yn ystyried dewisiadau ar hyn o bryd. Mae ein dull gweithredu ar y cyd rhwng yr Hyb Darparwyr o fewn Porth Gofal, Caffael a Chomisiynu a Chyllid yn gryfder arwyddocaol ac mae'n adlewyrchu ethos a phartneriaeth Tîm Ceredigion yn dda. Mae hyn yn sicrhau bod gwybodaeth, sgiliau a chysondeb yn sylfaen ein gweithgarwch ymgysylltu gyda'r sector.

### 6. Hyfforddwr Codi a Chario/Rhyddhau amser gofal

O ganlyniad i'n Cyllid Integreiddio Rhanbarthol, rydym wedi gallu cydweithio gyda'n

darpariaeth lechyd a Diogelwch a Dysgu a Datblygu gorfforaethol i benodi hyfforddwr ychwanegol rhan-amser a fydd yn datblygu ac yn darparu hyfforddiant codi a chario sy'n seiliedig ar werthoedd, gyda chymorth ac arweiniad ychwanegol i ddarparwyr gofal cartref yn nes ymlaen yn 2023 mewn ystafell hyfforddi bwrpasol newydd ym Mhenmorfa. Diben hyn yw cynyddu sgiliau, gwybodaeth, ansawdd a chysondeb hyfforddiant ar draws y sector gyda gallu adnodd lleol. Yn ogystal, mae gwaith yn mynd rhagddo ar y cyd, i archwilio'r posibilrwydd o ryddhau capasiti amser gofal trwy'r potensial o leihau rhai pecynnau gofal y mae gofyn iddynt gael dau aelod o staff gofal yr alwad i esblygu gan ddefnyddio mwy o ofal unigol, a gyflawnir trwy gyfrwng hyfforddiant a sgiliau estynedig i'r sector ynghylch defnyddio offer ar gyfer darparu gofal mwy diogel.

### 7. Cynllun Rhoi Meddyginiaeth

Gan weithio'n uniongyrchol gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda, rydym wedi hwyluso peilot gydag un o'n darparwyr Gofal Cartref i dreialu a phrofi'r Cynllun Rhoi Meddyginiaeth ranbarthol sy'n datblygu, ac sydd wedi'i seilio ar Gynllun Cenedlaethol LIC, a gaiff ei gyflwyno ar draws y sir wedi hyn.

### Y SEFYLLFA BRESENNOL:

#### Cyfeiriadau Rhyddhau Gwasanaeth Gofal a Galluogi wedi'i Dargedu i Adfer a Galluogi 2021/22 a 2022/23

1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022	1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023
Rhyddhau i Adfer ac Asesu /Galluogi	Rhyddhau i Adfer ac Asesu /Galluogi
<b>335</b>	<b>325</b>
Pontio Hirdymor	Pontio Hirdymor
<b>165</b>	<b>220</b>
Cyfanswm	Cyfanswm
<b>500</b>	<b>545</b>

#### Oriau Blynyddol y Gwasanaeth Gofal a Galluogi wedi'i Dargedu a Ddarparwyd

- Darparwyd 25,732 o oriau gofal yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

Rhaniad o oddeutu 60/40% ar gyfer Gofal Tymor Hir a Rhyddhau i Adfer ac Asesu (amser teithio heb ei gynnwys).

#### Oriau Blynyddol Asiantaethau Gofal Cartref a Gomisiynwyd a Ddarparwyd

- 244,219 awr rhwng 12 asiantaeth ar wahân  
= 20,351.65 awr y flwyddyn (gan nodi bod maint pob asiantaeth yn amrywio, ac felly mae cyfanswm y capasiti o ran llwyth achosion, staffio ac ardal ddaearyddol yn amrywio).

#### Rhestr Aros am Ofal Cartref

Yn ychwanegol i hysbysebu DPS e-Dendro, ar gyfer yr holl becynnau gofal sy'n ceisio cael eu comisiynu, mae swyddogion yr Hyb Darparwr yn cysylltu â'r darparwyr yn ddyddiol, gan ddarparu'r achosion cyfredol fesul ardal ddaearyddol iddynt a byddant yn gweithio gyda nhw wrth gynllunio llwybrau a delio â bylchau yn y rota er mwyn cynyddu'r potensial o dderbyn



gymaint ag y bo modd a cheisio pecynnau gofal ychwanegol trwy gyfrwng e-Dendro.

Ar 25/4/2023, roedd 66 o unigolion ar y rhestr ceisio gofal wedi'i gomisiynu yn aros, sy'n rhoi cyfanswm o 725 awr.

Fodd bynnag, rydym wedi gweld gostyngiad i'w groesawu o ran nifer y rhai sy'n aros am becynnau gofal dros y misoedd diwethaf. Ar ddechrau 2023, roedd y rhestr aros yn cynnwys 98 pecyn a 1068 awr. Er bod y ffigwr wedi tyfu o'r haf 2022, tuedd a welwyd ar draws y rhanbarth, Cymru a'r DU, gwelwyd y ffigwr yn sefydlogi yn ystod rhan olaf 2022, ac arhosodd yn weddol sefydlog er gwaethaf y ffaith na welwyd bron i unrhyw dderbyniadau pecynnau gofal o fis Tachwedd i ganol mis Ionawr gan y sector annibynnol, a dibyniaeth fawr ar y gymorth y gwasanaeth mewnol a defnydd o leoliadau tymor byr.

Mae Asiantaethau Gofal wedi gweld gwelliant araf iawn a graddol mewn rhai meysydd recriwtio, mae'r ffaith bod yr argyfwng tanwydd wedi sefydlogi wedi arwain at welliant wrth gadw staff presennol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol, a'r teimlad yw bod y rhain oll wedi cyfrannu at rywfaint o hyder ym mharodrwydd yr asiantaethau i ymgymryd â'r risg i'w model darparu, gan ymestyn eu darpariaeth i fwy o becynnau gofal. Fodd bynnag, mae sefyllfa y gweithlu a'r sector yn parhau i fod yn fregus ac mae'r cynnydd a gaiff ei sicrhau bob wythnos yn ei chael hi'n anodd dal i fynd â'r galw cynyddol a lefel y cymhlethdod o ran yr angen sy'n cael ei geisio er mwyn sicrhau unrhyw gynnydd pellach ar hyn o bryd.

O blith y rhestr aros gyfredol, mae 14 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynorthwyo mewn cartrefi preswyl ar hyn o bryd, gan aros am lefelau cymorth priodol sy'n ofynnol er mwyn iddynt allu dychwelyd gartref yn ddiogel, hy y bydd gofyn iddynt yn aml gael 4 galwad y dydd gan 2 staff gofal, 7 diwrnod yr wythnos. Neu mae angen gofal arnynt gartref mewn ardal ddaearyddol anghysbell lle nad oes unrhyw ddarparwr yn agos neu'n gallu cynnwys hyn yn eu llwybrau darparu gofal presennol i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae cost lleoliad preswyl yn uwch na phe baent yn cael pecyn gofal cartref yn y cartref a hefyd, rhoddir cap o £100 ar y cyfraniad, felly ceir potensial bod incwm yn cael ei golli hefyd, ynghyd â'r gost uwch. Mewn achosion cymhleth, cynhelir cyfarfod ar y cyd i ystyried yr holl ddewisiadau gofal yn y cartref sydd ar gael, neu am leoliad tymor byr os na fydd gofal yn y cartref yn ddewis hyfyw diogel. Mae hwn yn benderfyniad anodd i bawb dan sylw, ond rhoddir y pwys mwyaf ar ddiogelwch yr unigolyn o hyd. Y gobaith o hyd yw y bydd y Fframwaith Gofal Cartref newydd yn lleddfu rhai o'r pwysau ariannol ar y sector, gan ddenu darparwyr newydd i'r ardal hefyd o bosibl, yn ogystal ag annog rhai o'r rhai sefydledig yng Ngheredigion i ehangu.

Mae cost lleoliad preswyl yn uwch na phe bai yn cael ei ddarparu gyda phe cyn gofal cartref yn y cartref a hefyd, rhoddir cap o £100 ar y cyfraniad, felly ceir potensial bod incwm yn cael ei golli hefyd, ynghyd â'r gost uwch.

Yn ystod yr Haf 2022, gwelwyd mwy o hysbysiadau terfynu pecynnau (trosglwyddo'n ôl) gan asiantaethau gofal nag a welwyd erioed o'r blaen, ac roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith bod y sector yn colli staff gofal ac yn cael anawsterau wrth recriwtio. Mae hyn wedi lleihau'n sylweddol, a phan fydd darparwr yn cyhoeddi hysbysiad trosglwyddo'n ôl, mae

gennym ddull gweithredu aml-ddisgyblaethol a sefydlwyd yn gadarn gydag asiantaethau er mwyn ceisio darganfod datrysiadau i annog cyfraddau cadw. Mae'r Fframwaith newydd yn ymestyn hyd y cyfnod rhybudd y bydd yn rhaid ei roi o 28 diwrnod i 2 fis calendr er mwyn caniatáu mwy o amser i geisio gwaith i gynllunio datrysiadau.

Bydd y Fframwaith Gofal Cartref newydd yn darparu cyfradd newydd i'r holl asiantaethau o £26.50 ar gyfer pob pecyn, gyda'r gallu i dalu premiwm ychwanegol o hyd at £1.90 am becynnau sy'n bodloni set o feini prawf a bennwyd ymlaen llaw.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod Cyngor Sir Penfro newydd gyhoeddi eu cyfraddau newydd ar gyfer darparwyr a gomisiynir ar gyfer 2023/24 sef £30.64 trefol, £35.40 Gwledig a £41.99 Gwledig lawn. Ar gyfer ein hasiantaethau sy'n gweithredu o Dde Ceredigion ac sy'n gallu gweithio ar draws y ffin yn Sir Benfro, cânt eu dosbarthu fel asiantaethau Gwledig a bydd hyn yn cyfateb ag £8.90 yn fwy yr awr na chyfradd safonol Ceredigion. Gallai hyn arwain at effaith risg uchel arwyddocaol ar y sector yng Ngheredigion, gan leihau capasiti ymhellach o bosibl. I'r gwrthwyneb, rydym yn ymwybodol y byddwn efallai yn gweld ychydig gynnydd yng Ngogledd Ceredigion gan bod un neu ddwy asiantaeth yn awyddus i ehangu ymhellach i ganol y sir o ganlyniad i'r gwelliant i'r gyfradd yr awr yng Ngheredigion.

### **Yn ystod wythnos 25/4/2023, cynhaliodd y Gwasanaeth Gofal wedi'i Dargedu a Galluogi:**

- 34 pecyn gofal Pontio, 2 ohonynt yn ofal dau pâr o ddwylo (2 staff gofal fesul galwad = 320.75 awr
- 31 D2RA / Pecynnau gofal galluogi =231.0 awr

### **Oriau cyfunol**

=551.75 (25/4/23)

Trwy gydol 2022/23, rydym wedi olrhain lefelau swyddi gwag staff darparwyr bob wythnos, a oedd wedi cyrraedd uchafbwynt o 55 o swyddi gwag yn ystod y gaeaf. O 25/4/23, gan ystyried y rhai sy'n ymuno ac sy'n gadael ar draws y sector bob wythnos, adroddwyd bod swyddi gwag wedi gostwng i 42 ar draws y sector. Newid bychan ond arwyddocaol.

Mae gan Ofal a Galluogi wedi'i Dargedu 2 swydd wag yn weddill am Weithwyr Gofal a Chymorth ar gyfer y staff rheng flaen mewnol, gan sicrhau uchafswm y staffio o fewn capasiti y gyllideb bresennol. Ar hyn o bryd, mae gan y gwasanaeth 35 aelod o staff, mae 32 o staff yn gweithio ar sail rota dreigl o 35 awr yr wythnos, 4 diwrnod yn y gwaith a 4 diwrnod i ffwrdd ar draws wythnos 7 diwrnod, 52 wythnos y flwyddyn, gydag 1 aelod o staff yn darparu 23 awr a 2 aelod o staff yn darparu 21 awr yr wythnos.

### **Arolygiaeth Gofal Cymru**

Arolygwyd Gwasanaeth Gofal a Galluogi wedi'i Dargedu Cyngor Sir Ceredigion gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Hydref 2022 a chafodd adroddiad rhagorol, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022, a'r arolygwyr yn cynnig y ganmoliaeth uchaf ar gyfer model y gwasanaeth a'r ddarpariaeth.

Rydym wrth ein bodd bod yr adroddiad wedi cydnabod gwaith eithriadol y Rheolwr Cofrestredig, ei thîm rheoli bach, a'u staff rheng flaen ymroddedig. Mae adroddiad AGC yn tystio i ymrwymiad eithriadol, ansawdd gofal ac arweinyddiaeth gyffredinol y gwasanaeth, gyda chymorth y Rheolwr Corfforaethol a'r Unigolyn Cyfrifol. Rydym yn cyflwyno Adroddiad Arolygiad AGC (ac yn ei atodi fel papurau cefndir) gan gydnabod y cyflawniad mawr hwn, ymwreiddio'r model darparu gofal hybrid sy'n seiliedig ar ardaloedd ac wrth ymateb i'r sialensiau niferus i'r sector gofal, fel y gwelwyd tystiolaeth ohonynt yn yr adroddiad Gofal Cartref hwn.

**LLESANT  
CENEDLAETHAU'R  
DYFODOL:**

**A gwblhawyd Asesiad Effaith  
Integredig? Os na, nodwch pam  
*Crynodeb:*  
Tymor hir:  
Integreiddio:  
Cydweithio:  
Cyswllt:  
Atal:**

**ARGYMHELLIAD(ARGYMHELLION):** Er gwybodaeth

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**

**Enw Cyswllt: Donna  
Pritchard**

**Swydd: Swyddog  
arweiniol Corfforaethol  
Porth Gofal**

**Dyddiad yr Adroddiad: 3  
Mai 2023**

**Acronymau:**





## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Targeted Care and Enablement**

**Cyngor Sir Ceredigion  
Uned 1 Parc Menter Dyffryn Aeron  
Llanbedr Pont Steffan  
SA48 8AG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

20/10/2022

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.**

*Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y*

*Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:*

*[psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)*

*Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Targeted Care and Enablement

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ceredigion
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	<a href="#">18 Chwefror 2020</a>
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

### Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyfnod o gymorth byr wedi'i dargedu i bobl (hyd at chwech wythnos fel arfer) i'w galluogi i adfer cymaint o'u hannibyniaeth â phosibl. Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a dywedwyd wrthym *“Mae'n wasanaeth gwych, rwyf yn gwbl fodlon ag ef ac mae wedi bod o gymorth i mi gryfhau”*. Mae'r cynrychiolwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r anogaeth gan y staff a dywedodd aelod o deulu wrthym *“Mae'n wasanaeth ardderchog, mae'r gofalwyr yn ei annog i wneud ei ymarferion”*.

Caiff gweithwyr cymorth profiadol eu tywys gan gynlluniau manwl a gaiff eu creu gyda'r unigolyn ac sy'n canolbwyntio ar y nodau y mae am ei gyflawni wrth ddefnyddio'r gwasanaeth. Dywedodd un wrthym *“Mae gweithio i'r gwasanaeth yn rhoi boddhad mawr i mi. Mae pob galwad yn wahanol, mae'n amrywiol ac mae'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl sy'n ei wneud yn werth chweil”*. Mae rheolwyr y gwasanaeth yn hawdd mynd atynt ac mae pawb yn eu parchu. Dywedodd un o'r gweithwyr cymorth *“Rwy'n teimlo fy mod yn rhan o dîm da iawn sy'n cynnig cymorth o'r brig i'r bôn”*.

## Llesiant

Caiff y bobl gymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chânt eu cynnwys ym mhob penderfyniad sy'n ymwneud â'r gwasanaeth y maent yn ei gael. Caiff gwybodaeth fanwl am nodau unigol y bobl wrth ddefnyddio'r gwasanaeth ei chofnodi mewn cynlluniau personol. Mae'r uwch-aelodau o staff yn gweithio'n agos gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn helpu'r bobl i fod mor annibynnol ac i gadw mor iach â phosibl. Dywedodd un o'r gweithwyr cymorth wrthym *“Mae gennym rwydwaith da o bobl y gallwn gysylltu â nhw os bydd angen; gan gynnwys meddygon teulu, nyrsys ardal, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion”*. Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cyfrannu'n rheolaidd at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'r uwch-weithwyr yn cadw cynlluniau personol manwl sy'n canolbwyntio ar bennu a chyflawni nodau a chyfathrebu'n effeithiol â phawb sy'n rhan o'r broses.

Mae'r gwasanaeth yn para hyd at chwech wythnos ac yn helpu'r bobl i adfer cymaint o'u hannibyniaeth â phosibl. Caiff iechyd a llesiant y bobl eu hyrwyddo'n barhaus gan y gwasanaeth gan fod y gweithwyr cymorth yn canolbwyntio ar yr hyn y gall y bobl ei wneud gan roi cymorth dim ond lle bo'i angen. Dywedodd un o'r gweithwyr cymorth wrthym *“Rwy'n mwynhau helpu'r bobl pan fydd ei angen arnynt a gwella eu llesiant a'u hiechyd”*. Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan fod y gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae llawer o'r staff yn siarad Cymraeg, sy'n golygu y gall y bobl gyfathrebu yn Gymraeg neu'n Saesneg, fel y dymunant. Caiff y bobl eu grymuso i gadw rheolaeth dros y cymorth a gânt gan aelodau o staff sy'n eu galluogi i adennill sgiliau mewn ffordd effeithiol a diogel.

Drwy brosesau recriwtio a hyfforddiant, gwneir yn siŵr bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth iawn gan weithwyr medrus a gwybodus. Mae'r gweithwyr gofal yn amddiffyn y bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac maent yn gwbl ymwybodol o'r cyfrifoldebau sydd arnynt i godi pryderon. Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn gwybod sut i wneud cwyn os bydd angen iddynt wneud hynny, ac maent yn ymddiried yn y rheolwyr yn llawn.

Mae gan y bobl lais ac maent yn cyfrannu at y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg gan fod yr Unigolyn Cyfrifol yn eu cynnwys yn y broses sicrhau ansawdd. Mae'r prosesau llywodraethu'n gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth drwy ddefnyddio gwybodaeth o arolygon ac archwiliadau. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal yn nodi meysydd i'w gwella ar ôl ymgynghori â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r darparwr hefyd yn ystyried ffyrdd creadigol o weithio er mwyn diwallu anghenion y bobl, gan gynnwys defnyddio technoleg gynorthwyol arloesol.



## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn hapus iawn â'r gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Dywedodd unigolyn wrthym *“Mae'r staff yn ardderchog, yn gyfeillgar ac yn gwrtais ac maent yn cael hwyl gyda ni”*. Mae'r staff yn rhoi cymorth i bobl adfer eu hannibyniaeth yn eu cartrefi eu hunain. Gall hyn fod ar ôl cyfnod yn yr ysbyty neu gyfnod o salwch. Dywedodd aelod o deulu wrthym *“Mae'r merched (gweithwyr gofal) yn dda, maent wedi dod i'n hadnabod yn dda”*. Mae gan y darparwr gynlluniau cywir wedi'u personoli sy'n anelu at nodau penodol ar gyfer rhoi cymorth i unigolion.

Mae'r rheolwr yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth a geir gan yr unigolyn, ei gynrychiolwyr, y gweithwyr a gweithwyr proffesiynol allanol. Mae'r asesiadau risg yn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel, ond gan hybu ac annog eu hannibyniaeth ar yr un pryd. Mae'r uwch-weithwyr yn adolygu'r cynlluniau yn rheolaidd gyda'r unigolion, eu cynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn canolwyntio ar gyflawni eu canlyniadau o hyd. Mae'r nodiadau dyddiol yn fanwl ac yn dangos y cymorth y mae'r bobl yn ei gael. Maent yn cynnwys adborth pwysig gan yr unigolyn. Mae'r gweithwyr cymorth yn dilyn ethos galluogi ac yn helpu pobl yn unol â'u nodau unigol penodol. Gwelsom dystiolaeth dda iawn o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cael eu cynnwys drwy gydol y broses cynllunio ac adolygu.

Mae'r gweithwyr cymorth yn frwdfrydig ac yn gadarnhaol am eu rôl a'r effaith y maent yn ei chael ar y bobl. Dywedodd un o'r gweithwyr wrthym *“Rwy'n mwynhau gwneud gwahaniaeth i'r bobl, eu gweld yn adfer eu hannibyniaeth i'r graddau nad oes angen y gwasanaeth arnynt mwyach. Mae'n braf gweld eu bod yn gallu aros yn eu cartrefi eu hunain gan barhau i fyw bywyd o'u dewis”*.

Dywedodd y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol wrthym am y dull tîm a ddefnyddiwyd er mwyn parhau i ddarparu'r gwasanaeth yn ystod y pandemig. Dywedwyd wrthym fod y staff wedi gweithio sifftiau ei gilydd pan oedd yn rhaid i aelodau ynysu, gan olygu y gellid parhau i ddarparu'r gwasanaeth. Mae'r gweithwyr cymorth yn ddiolchgar iawn am y cymorth a gawsant drwy gydol y pandemig.

Mae gan y darparwr bolisiau a gweithdrefnau i reoli'r risg o heintiau. Mae arferion hylendid da ar waith yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r gwasanaeth yn darparu cyngor hygyrch ac effeithiol i'r gweithwyr cymorth. Mae gan bob cynllun unigol ddolenni fideo i'r arferion symud a chodi a chario cyfredol sy'n berthnasol i'r unigolyn hwnnw a gellir edrych arnynt pryd bynnag y bo angen.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau da ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae ymweliadau chwarterol statudol yr Unigolyn Cyfrifol yn gynhwysfawr ac maent yn cynnwys y bobl a/neu eu cynrychiolwyr a'r staff. Mae gwybodaeth o systemau sicrhau ansawdd mewnol yn llywio'r cynllun gweithredu sy'n canolbwyntio ar wella'r gwasanaeth. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal a gynhelir bob chwe mis yn fanwl ac yn nodi canlyniadau cadarnhaol yn ogystal â'r meysydd y mae'r gwasanaeth yn bwriadu eu gwella.

Ceir diwylliant agored a chefnogol yn y gwasanaeth. Mae'r rheolwr yn hawdd mynd ato ac mae'r tîm yn ei barchu. Mae'r bobl yn ffyddiog bod y gwasanaeth yn ymdrin â chwynion yn briodol ac yn teimlo y gallant eu codi os bydd angen. Dywedodd person wrthym *“Ni fu'n rhaid i mi gwyno, ond pe byddai angen i mi wneud, mae gennyf rif ffôn y rheolwr a gallwn ei ffonio ar unwaith”*. Mae'r gweithwyr cymorth yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth a'r rheolwyr; dywedodd un ohonynt wrthym *“Mae fy rheolwr llinell ar gael i roi cymorth mewn unrhyw ffordd, yn enwedig yn ystod pandemig COVID-19”*. Cadarnhaodd pob un o'r gweithwyr cymorth eu bod yn cael cyfarfodydd goruchwyllo ac arfarniadau unigol rheolaidd a bod cyfleoedd iddynt siarad â'r rheolwr pryd bynnag y byddai angen gwneud hynny. Roedd cofnodion yn cadarnhau hyn. Dywedodd un o'r gweithwyr cymorth wrthym *“gallaf ffonio fy rheolwr unrhyw bryd os bydd angen cymorth arnaf”*. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o faterion sy'n ymwneud â diogelu. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da, ac mae gan y staff ddealltwriaeth ddigonol o bolisïau allweddol.

Cynhelir gwiriadau cyn cyflogaeth cyn i gyflogaeth newydd ddechrau gweithio, gan gynnwys gwirio geiradau a'r hawl i weithio a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Caiff y gweithwyr cymorth hyfforddiant gorfodol, hyfforddiant sy'n benodol i unigolion a hyfforddiant datblygiadol er mwyn diwallu anghenion y bobl a sicrhau bod modd cyflawni canlyniadau. Mae'r broses sefydlu yn gynhwysfawr ac yn benodol i'r gwasanaeth. Mae hyfforddiant a datblygiad parhaus ar gael i'r gweithwyr yn unol ag anghenion amrywiol a chymhleth y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt. Dywedodd un o'r gweithwyr cymorth wrthym *“Rwy'n fwy gwybodys ar ôl cael hyfforddiant ac mae'n fy helpu i sicrhau y gall y bobl ddychwelyd at fod yn annibynnol yn eu cartref”*.

Mae digon o staff ar gael i ddiwallu anghenion y bobl. Mae gweithwyr penodedig yn sicrhau bod y bobl yn cael parhad gofal a chymorth er mwyn helpu i feithrin cydberthnasau hanfodol. Dywedodd unigolyn wrthym *“Roeddwn yn bryderus ar ddechrau'r gwasanaeth ond cefais dawelwch meddwl o fewn yr ychydig ddiwrnodau cyntaf ac erbyn hyn, rydym yn teimlo fel petaem wedi eu hadnabod ers blynnyddoedd”*.

## Tudalen 115

### Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
<b>Heb ei Chyflawni</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

**Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella**

Rheoliad	Cynwedd Tudalen 116	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

**Dyddiad Cyhoeddi 23/11/2022**



## **Gwerthfawrogi'r Gweithlu Gofal Cartref Model Gwerth Cymdeithasol i Geredigion**

### **Cefndir**

Mae comisiynu gofal cartref mewn sir wledig ac arfordirol fel Ceredigion wastad wedi bod yn heriol. Roedd datganiad sefyllfa y farchnad gofal cartref yn dangos y sialensiau parhaus a'r problemau cynyddol wrth recriwtio a chadw staff. Cydnabuwyd hefyd bod y ffioedd a delir i ddarparwyr gofal yng Ngheredigion yn ei chael hi'n anodd cadw ar yr un lefel â'r ffioedd a delir mewn awdurdodau cyfagos a'r ffaith bod asiantaethau posibl ar y ffin yn gallu dewis o blith cyfraddau comisiynu awdurdodau eraill, gweithgarwch comisiynu y bwrdd iechyd ac arianwyr preifat. Effeithiwyd yn fawr ar y sector gofal ar ôl y pandemig ac mae staff gofal yn cael eu denu i gyflawni rolau sy'n gofyn llai ohonynt am fwy o arian ac amodau a thelerau gwell y tu allan i faes gofalu. Gwelir bod gweithio dan amgylchiadau anodd, a chan gyflawni'r rôl bwysicaf mewn cymdeithas, ond am gyflogau is ac amodau a thelerau gwaeth na'r hyn a welir mewn sectorau eraill, yn rhwystr posibl wrth gynllunio gweithgarwch recriwtio, cadw, gyrfaedd ac olyniaeth.

### **Ystyried Cyfraddau Ffioedd Newydd**

Ar ôl mabwysiadu System Brynu Ddynamig er mwyn caffael gofal cartref, roedd gwahanol ddarparwyr wedi cytuno ar gyfraddau ffioedd. Bu ceisio osgoi dewis y pris ar draul ansawdd yn heriol, yn ogystal â sicrhau bod gofal ar gael mewn ardaloedd gwledig, yn ogystal â'r ardaloedd trefol mwy poblog.

Mae'r Gymdeithas Gofal Cartref (HCA, Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig, UKHCA, yn flaenorol) yn cyfrifo ffi deg ar gyfer darparu gofal, gan gyhoeddi hon bob blwyddyn, fel un gyfradd ar gyfer y DU yn hanesyddol. Cydnabuwyd bod cyfraddau ffioedd Ceredigion yn is na'r gyfradd a argymhellwyd gan HCA. Ar ôl ystyried y cyfrifiad hwn, penderfynwyd datblygu Adduned Ceredigion fel rhan o'r Fframwaith Gofal Cartref ac ymarfer Tendro Gofal Cartref 2023 er mwyn datblygu ymrwymiad Model Gwerth Cymdeithasol.

### **Cytundeb Cyngor Sir Ceredigion**

Mae sicrhau cyfraddau ffioedd teg yn un o gonglfeini'r strategaeth hirdymor ar gyfer cynaladwyedd gofal cartref yng Ngheredigion. Roedd sicrhau y byddai mabwysiadu cyfraddau ffioedd uwch yn arwain at y staff gofal eu hunain yn cael budd a bod amodau a thelerau cyflogeion yn gwella yn rhan hanfodol. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gweld gwerth 'Punt Ceredigion' a'r ffaith y dylid gwario arian y Cyngor, pan fo modd, yng Ngheredigion er budd pobl Ceredigion, gyda'r arian hwnnw yn cylchredeg trwy economi Ceredigion a Chymru.

Ar ôl ystyried goblygiadau cyllidebol ehangach, cefnogwyd a chymeradwywyd y cynigion ar gyfer cyfradd Gofal Cartref 2023/24.

### **Adduned Ceredigion**

1. Ein nod yw talu cyfradd i'r holl ddarparwyr gofal cartref sy'n cyd-fynd yn fwy gyda'r gyfradd yr awr a argymhellir gan HCA. Yng Nghymru, mae'r gyfradd ar gyfer 2023/24 wedi cynnwys taliadau hyfforddi llawn ar gyfer amrediad y ffioedd a'r amser hyfforddiant, ac rydym yn cydnabod nad yw'r

cyfrifiad hwn yn adlewyrchu sefyllfa yr amgylchedd hyfforddiant cyfredol ar draws y sector yn llawn. Fodd bynnag, cydnabuwyd egwyddorion gosod cyfradd HCA yn y gyfradd a gymeradwywyd ar gyfer 2023/24. Byddwn yn adolygu'r ffoedd bob blwyddyn, a byddant yn dod i rym ym mis Ebrill bob blwyddyn fel arfer. Efallai y caiff y gyfradd ei newid yn dilyn adolygiad, a gallai'r newid hwn fod yn godiad neu'n ostyngiad i'r gyfradd. Pan fo polisi Llywodraeth Cymru neu ffactorau sydd wedi'u hymgorffori ym mholisi neu ddeddfwriaeth y DU yn llywodraethu elfennau sy'n cyfrannu at y gyfradd, bydd y Cyngor yn sicrhau bod newid priodol yn cael ei wneud i'r gyfradd. Pan fo elfennau o'r gyfradd yn ymwneud yn fwy â chostau cyffredinol, ystyri'r mynegai chwyddiant briodol a gyhoeddwyd fel rhan o'r adolygiad ar gyfer yr elfennau hynny, h.y. ystyried a dadansoddi'r dadansoddiad o gyfraddau argymelledig HCA ar draws y DU a gwneir penderfyniad rhesymol a theg gan ystyried y dadansoddiad cymharol i Gymru a chenhedloedd eraill y DU.

2. Ar gyfer 2023/24, mae'r ffi wedi codi i £26.50 yr awr, gan arwain at rai darparwyr yr oeddent wedi gwneud cais trwy gyfrwng y System Brynu Ddynamig yn flaenorol ar gyfraddau isel, yn cael ymgodiad sylweddol yn 2023. Mae gan y Cyngor ddisgresiwn i dalu cyfradd estynedig am becynnau sy'n bodloni set o feini prawf a ddiffiniwyd ymlaen llaw. Os bydd pecyn cymorth yn berthnasol ar gyfer y gyfradd hon, caiff hyn ei ddynodi pan hysbysebwr yn gofyn i bobl fynegi diddordeb mewn pecynnau trwy gyfrwng porth eDendroCymru.

3. Y nod, gydag amser, yw sicrhau'r gyfradd HCA i Gymru i'r holl ddarparwyr, mewn ffordd ymarferol, ar sail dadansoddiad cymharol o'r costau ar draws y cenedloedd er mwyn sicrhau'r safonau a'r amodau a thelerau gorau ar gyfer y staff gofal.

### **Buddion i Ymgynghraedd atynt**

Mae'n bwysig bod y Cyngor yn cael ei alluogi i reoli'r sefyllfa ariannol mewn ffordd briodol a bod darparwyr yn gallu bodloni safonau Adduned 15 Pwynt Ceredigion fel ymrwymiad craidd a sylfaenol dan yr Amodau a Thelerau a'r Contract Gofal Cartref DPS newydd. O fframwaith 2023/24, rhaid i'r holl ddarparwyr gyflawni'r safonau hyn, gan sicrhau'r ymgodiad llawn ar y dechrau.

Y bwriad yw y bydd yr holl staff gofal yng Ngheredigion yn cael tâl sy'n ceisio adlewyrchu gwerth eu llafur a bod eu hamodau a thelerau gwaith yn cael eu gwella. Bydd recriwtio yn galluogi twf o ran nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n ymgeisio am rolau gofalu, bydd yn lleihau'r anghydbwysedd rhwng y tâl rhwng y ddau ryw a bydd yn hyrwyddo gofal fel llwybr gyrfa hirdymor.

Ar gyfer poblogaeth Ceredigion, economi Ceredigion, defnyddwyr gwasanaeth gofal cymdeithasol Ceredigion, staff gofal Ceredigion, asiantaethau gofal Ceredigion, a Chyngor Sir Ceredigion, bydd buddion y **Model Gwerth Cymdeithasol** yn darparu:

1. **Gofal cymdeithasol gwyh i unigolion** – y mae hwn ynddo'i hun yn ffynhonnell gwerth cymdeithasol. I'r gwrthwyneb, nid yw gofal cymdeithasol gwael i unigolion yn ffynhonnell gwerth cymdeithasol.

2. **Gwerth ychwanegol** – mae'n dod o fodolau gofal a chymorth sy'n cynnig gwerth cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, y tu hwnt i ddarpariaeth gofal gwyh i unigolion. Mae'r gwerth ychwanegol hwn yn cynnig budd i'r gymuned a'r byd ehangach – ac mae'n cynnig budd i genedlaethau'r dyfodol.

**Mae hwn yn cynnig sylfaen i Adduned Ceredigion.** Mae'n golygu y disgwylir i ddarparwyr ddangos hyn mewn cyflwyniadau i ymuno â'r DPS ac wrth ddarparu gwasanaethau. Disgwylir i ddarparwyr gydweithio gyda Chyngor Sir Ceredigion trwy gydol y contract er mwyn coleddu ac ymwreiddio'r ethos a amlinellwyd gan y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol a Cwmpass yn eu Canllawiau *Trawsnewid Gofal Cymdeithasol* a ariannir gan Lywodraeth Cymru.

## **Adduned Ceredigion Amodau a Thelerau Gwell i Weithwyr Gofal Cartref yng Ngheredigion Cynllun 15 Pwynt 2023/24**

1. Telir y Cyflog Byw Gwirioneddol i holl Bersonél Darparwyr Gwasanaeth (SPP) sy'n ymwneud â darparu gofal, beth bynnag fo eu hoedran.
2. Bydd y cyflogwr yn talu cost yr archwiliad DBS estynedig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
3. Efallai y bydd y cyflogwr yn dymuno ystyried talu cost ffi gofrestru flynyddol Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer yr SPP sy'n ymwneud â darparu gofal yn uniongyrchol.
4. Bydd y cyflogwr yn darparu gwsg ar gyfer y staff, heb godi tâl am hyn.
5. Caiff amser teithio am dâl yn yr RLW ei gynnwys rhwng pob galwad. Ni all galwadau cyswllt fod yn rhai sy'n digwydd gefn wrth gefn. Gall amser teithio rhwng yr alwad gyntaf ac o'r alwad olaf gael ei eithrio o hawliadau amser teithio, lle y mae sifftiau yn rhai sy'n para o leiaf 6 awr yr un.
6. Pan dalwyd am oriau a gomisiynwyd, h.y. galwad wedi'i chanslo heb roi rhybudd digonol, rhaid talu'r SPP sy'n ymwneud â darparu'r gofal yn uniongyrchol am yr amser hwn.
7. Pan dalwyd am oriau a gomisiynwyd dan y Cynllun Cadw, h.y. ar gyfer cyfnodau o absenoldeb yn yr ysbyty ac ar gyfer seibiant a gymeradwywyd, rhaid i'r SPP sy'n ymwneud â darparu'r gofal yn uniongyrchol barhau i gael eu talu am yr amser hwn.
8. Telir cyfradd y filltir gyfredol CTheF i'r SPP pan fyddant yn defnyddio eu car eu hunain wrth gyflawni dyletswyddau gwaith.
9. Bydd y cyflogwr yn talu cost ffôn symudol ar gyfer y gwaith, neu bydd yn cyfrannu at gost ffonau symudol preifat pan ddefnyddir y rhain.
10. Telir SPP am unrhyw amser rhesymol y byddant yn ei dreulio yn hyfforddi h.y. Fframwaith Ymsefydlu Cymru Gyfan (AWIF) a hyfforddiant gorfodol arall h.y. Pasbort Cymru Gyfan a diweddariadau gorfodol.
11. Telir am bob egwyl ac eithrio un egwyl o 30 munud y dydd i'r RLW fel isafswm, gan gynnwys egwyl o dros 30 munud.
12. Caiff yr SPP sy'n ymwneud â darparu gofal yn uniongyrchol seibiant digonol rhwng sifftiau h.y. os bydd y rota yn nodi bod gweithiwr SPP yn gweithio'n hwyr, ni fydd gofyn iddynt ddechrau yn gynnar y bore wedyn.
13. Gall SPP fanteisio ar gymorth emosiynol a chwnsela a lles trwy gyfrwng cymorth rhagweithiol gan y cyflogwr a thrwy hyrwyddo mynediad i'r rhaglenni cymorth trwy gyfrwng SCW a chymorth y sector gofal mewn ffordd weithredol. <https://socialcare.wales/resources-guidance/health-and-well-being-resources>
14. Trefnir gwaith er mwyn sicrhau bod SPP yn cael eu cynnwys mewn rota yn unol â'r Rheoliadau Oriau Gwaith (1998), oni bai eu bod yn optio allan yn wirfoddol.

**Buddion i ymgyrhaedd atynt ac i'w cyflawni erbyn 2025/26 a fydd yn cael eu hystyried fel rhan o weithgarwch gosod cyllidebau a chynllunio dan Fodelau Gwerth Cymdeithasol er mwyn denu cymorth grant/preiwm ychwanegol a chan gyd-fynd â'r gyfradd HCA Cymru bosibl ar gyfer 2025/6.**

1. Bydd gan y cyflogwr Gynlluniau Gwobrwyo blynyddol a chynlluniau Cymhelliant Bonws er mwyn cydnabod rhagoriaeth a gwobrwyo ymgysylltu arloesol a rhagweithiol.
2. Bydd y cyflogwr yn sicrhau bod staff yn cael eu talu am weithio oriau anghymdeithasol, penwythnosau, a gwyliau banc ar gyfraddau uwch a fydd yn uwch nag RLW.



## Tudalen 121

3. Bydd y cyflogwr yn sicrhau bod staff yn gallu manteisio ar gynllun absenoldeb salwch cyflogwr, a fydd yn uwch na'r tâl salwch statudol.
4. Bydd y cyflogwr yn talu ffi flynyddol Gwasanaeth Diweddarau DBS.
5. Bydd y cyflogwr yn talu am hyfforddiant Cymraeg i gynorthwyo wrth sicrhau bod mwy o siaradwyr Cymraeg ar gael yn eu gweithlu.

Enw	
Swydd	
Llofnod	
Cwmni	
Dyddiad	

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

<b>ADRODDIAD I'R:</b>	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach
<b>DYDDIAD:</b>	24 Mai 2023
<b>LLEOLIAD:</b>	Hybrid
<b>TEITL:</b>	Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	Cael cymeradwyaeth ar gyfer mabwysiadu Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar, o safbwynt awdurdod lleol Ceredigion

**RHESWM PAM BOD  
Y PWYLLGOR CRAFFU  
WEDI GOFYN AM Y  
WYBODAETH:** Er gwybodaeth

**CEFNDIR:**

Yn 2018 roedd Llywodraeth Cymru wedi gwahodd cynigion gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i fod yn fraenarwyr (*Pathfinders*) ar gyfer Rhaglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar. Cyflwynwyd cais gan Awdurdodau Lleol Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, ar y cyd â Bwrdd Iechyd Hywel Dda, i fod yn ardaloedd braenaru. Cafwyd cyllid (2019 - 2024) i beilota a phrofi ffyrdd o Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar, a ffurfiwyd Grŵp Llywio Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar. Ym mis Ionawr 2021, llwyddodd Sir Benfro â'u cais nhw i ymuno â'r Rhaglen Fraenaru ac felly mae pob Awdurdod Lleol ym mhatrwm daearyddol Hywel Dda wedi bod ynghlwm â'r Rhaglen.

Yn 2021/ 2022 bu cynrychiolwyr o'r tri Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cydweithio i lunio Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru.

## Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Mae'r Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru wedi ei llywio gan agenda Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mwy integredig, fel y nodwyd yn Neddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar gefnogaeth yn ystod 7 mlynedd gyntaf y plentyn, gan gydnabod pwysigrwydd y blynyddoedd ffurfiannol hyn wrth siapio iechyd a lles y plentyn at y dyfodol.

Ymgynghorwyd yn eang ar y strategaeth ddrafft gyda gweithwyr proffesiynol a defnyddwyr gwasanaethau ledled y rhanbarth, a gwnaed gwelliannau ar sail yr adborth a gafwyd. Roedd yr ymgynghoriad ar agor rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2022 a dyma'r ymatebion a gafwyd:

- Ymgynghoriad ar-lein – 54 o ymatebion
- Grwpiau ffocws rhieni – 55 wedi cymryd rhan
- Grwpiau ffocws gweithwyr proffesiynol – 28 wedi cymryd rhan
- Cafwyd ymatebion oddi wrth: Tîm Gofal Plant; Nyrsys Ysgol; Tîm Bydwreigiaeth; Tîm Ymwelwyr Iechyd; Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg; Tîm Therapi Iaith a Lleferydd
- Yn ogystal, yng Ngheredigion, cafwyd cyfarfodydd gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Aelod Cabinet dros Lesiant Gydol Oes i ystyried y strategaeth ddrafft.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth a'r wefan wedi cael ei oruchwylio gan y Grŵp Llywio Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar.

Nod y Strategaeth yw hyrwyddo cydweithio rhwng gwasanaethau cymorth yn y cyfnodau cyn geni a'r Blynyddoedd Cynnar. Mae'r strategaeth i'w gweld ar wefan Strategaeth Gorllewin Cymru ar gyfer Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar sy'n ffrwyth cydweithio rhwng awdurdodau lleol Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a phartneriaid trydydd sector (mae'r strategaeth ar gael hefyd ar ffurf PDF ar y wefan).

Ar sail ymgynghori helaeth gyda Defnyddwyr Gwasanaethau a Gweithwyr Proffesiynol y Blynyddoedd Cynnar, lluniwyd Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar gyda'r nod o hyrwyddo gwasanaethau rhagorol ar bob cam o Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar. Nod y strategaeth yw cyflawni'r canlynol:

- Ymgysylltu'n gadarnhaol/ ymyrryd yn gynnar gyda theuluoedd yn y cyfnod cyn geni
- Ymgysylltu'n gadarnhaol gyda theuluoedd yn y Blynyddoedd Cynnar
- Pontio'n gadarnhaol rhwng Gofal Plant ac addysg y Blynyddoedd Cynnar

Yn ogystal, nodwyd pum thema strategol fel cyfrwng i gyflawni'r amcanion uchod:

- Integreiddio ein gwasanaethau
- Cymryd agwedd sy'n canolbwyntio ar y person wrth ddylunio gwasanaethau
- Datblygu seilwaith a systemau technolegol i alluogi cydweithio
- Datblygu ein Gweithlu
- Darparu gwybodaeth hygyrch

[Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru – Gweithio gyda'n gilydd i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant \(strategaethblynyddoeddcynnargorllewin.cymru\)](#)

## **DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014**

Mae Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar yn cyd-fynd ag egwyddorion y Ddeddf, yn benodol Atal, Ymyrraeth Gynnar a chydweithio mewn Partneriaeth / Integreiddio.

## **DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Mae Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn hyrwyddo Cydweithio, Integreiddio, cyfranogiad y Defnyddiwr Gwasanaethau ac Atal.

**ARGYMHELLIAD:** Bod y Pwyllgor Craffu yn cymeradwyo Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:** Er mwyn egluro'r pwrpas a hyrwyddo dull cydweithredol o ymdrin â gwasanaethau Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar.

**Enw Cyswllt:** Iwan Davies  
**Swydd:** Rheolwr Corfforaethol - Ymyrraeth Gynnar  
**Dyddiad yr adroddiad:** 24 Ebrill 2023

# ein strategaeth



## Gwasanaethau rhagorol ar bob cam

Yn seiliedig ar yr hyn a wyddom am y dirwedd gwasanaethau presennol a'r hyn rydym wedi'i ddysgu gan deuluoedd a gweithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar, nod ein strategaeth ar gyfer 2022-26 yw sicrhau:



### **Ymgysylltu cadarnhaol/ymyrraeth gynnar â theuluoedd ar y cam cyn-geni**

Sicrhau bod gwasanaethau arbenigol yn darparu cymorth i baratoi teuluoedd ar gyfer bod yn rhiant a chynig cymorth cyn gynted â phosibl.




### **Ymgysylltu cadarnhaol â theuluoedd yn ystod y Blynyddoedd Cynnar**

Sicrhau bod ein hanghenion teuluol wrth wraidd gwasanaethau cydgysylltiedig, fel bod teuluoedd yn cael mynediad at y cymorth cywir ar yr adeg gywir.



### **Pontio cadarnhaol o ofal plant i addysg y Blynyddoedd Cynnar**

Sicrhau proses bontio ddi-dor ar gyfer pob plentyn a rhiant o leoliadau cyn ysgol i addysg y blynyddoedd cynnar.





## 1. Integreiddio ein gwasanaethau

### Mae angen hyn arnom oherwydd:

- Mae gweithio ar wahân yn creu rhwystrau rhwng gwasanaethau a bylchau y gall teuluoedd lithro rhyngddynt
- Gwyddom fod teuluoedd (yn enwedig teuluoedd mewn angen) yn cael gofal gwell pan fydd gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd
- Mae adnoddau dan bwysau; trwy gydweithio, gallwn osgoi dyblygu, lleihau gwastraff ac adeiladu ar waith ein gilydd

### Mae angen:

- Gwneud penderfyniadau ar y cyd wedi'i ategu gan rannu gwybodaeth
- Systemau ar gyfer cydweithio rhwng cynghorau
- Dull seiliedig ar le o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys timau'r Blynyddoedd Cynnar wedi'u cydleoli lle bo'n briodol
- Cyfathrebu gwell rhwng gwasanaethau
- Perthnasoedd mwy cadarnhaol rhwng grwpiau proffesiynol
- Gweithlu wedi'i ysgogi a'i rymuso i weithio ar draws ffiniau gwasanaethau
- Gweithlu sy'n teimlo fel un tîm, yn cyd-dynnu i gyflawni'r un nodau

### Byddwn yn cyrraedd yno trwy:

- Sefydlu mwy o dimau wedi'u cydleoli ar draws y rhanbarth
- Archwilio opsiynau ar gyfer comisiynu ar y cyd neu gydgomisiynu
- Dysgu o werthusiadau o waith peilot braenaru
- Helpu gweithwyr proffesiynol i gasglu adborth gan deuluoedd fel y gellir ei ddefnyddio wrth gynllunio a gweithgareddau cyd-ddylunio gwasanaethau yn y dyfodol





## 2. Mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn at gynllunio gwasanaethau



### Mae angen hyn arnom oherwydd:

- Rydym am gynnig gwasanaethau hygyrch y mae teuluoedd am eu defnyddio
- Gyda'r adnoddau presennol mae'n anodd cynllunio gwasanaethau i fod yn wirioneddol person-ganolog
- Nid ydym yn gwybod digon am anghenion ein holl ddefnyddwyr gwasanaeth ac nid ydym yn cydnabod pa mor wahanol yw'r anghenion hyn, na sut y maent yn newid dros amser.
- Gall teuluoedd deimlo eu bod yn cael eu tanseilio a'u gadael ar eu pennau eu hunain pan nad yw gwasanaethau yn adeiladu o'u cryfderau yn ogystal â'u hanghenion

### Mae angen:

- Ymchwil rheolaidd gyda defnyddwyr gwasanaeth a dolenni adborth syml fel y gallwn weld ein gwasanaethau a'n gweithlu trwy lygaid y teuluoedd sy'n dibynnu arnynt
- Datblygu sgiliau gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar fel eu bod wedi'u paratoi'n well i adnabod cryfderau teuluoedd a gwrando ar anghenion teuluoedd
- Gwasanaethau a arweinir gan y gymuned a gomisiynir o'r gwaelod i fyny
- Nodi a dileu rhwystrau i fynediad at wasanaethau, e.e. trwy gael gwasanaethau i weithio'n well ar draws ffiniau cynghorau
- Llai o fiwrocratiaeth

### Byddwn yn cyrraedd yno trwy:

- Cyllidebu ar gyfer ymgynghoriad rheolaidd â defnyddwyr gwasanaeth
- Gwneud mwy o hyfforddiant a datblygiad cyd-ddylunio'r gweithlu i helpu gweithwyr proffesiynol i ddal a chynrychioli lleisiau teuluoedd
- Cynyddu cydweithio rhanbarthol ac integreiddio gwasanaethau
- Chwilio am ffyrdd o fuddsoddi mewn gwasanaethau a arweinir gan y gymuned



### 3. Datblygu seilwaith a systemau technoleg er mwyn gallu cydweithio

#### Mae angen hyn arnom oherwydd:

- Nid oes gan weithwyr proffesiynol gwasanaethau fynediad at y wybodaeth ddiweddaraf a rennir am deuluoedd sy'n golygu bod rhaid i aelodau'r teulu ailadrodd hanes eu hachos yn gyson ym mhob cyfarfod ac ymgynghoriad
- Ni all staff mewn cynghorau, gwasanaethau a phroffesiynau gwahanol rannu gwybodaeth yn hawdd ac yn ddiogel ar draws ffiniau sefydliadol
- Gall plant gael eu colli pan fydd atgyfeiriadau'n anghyflawn neu'n cael eu gohirio oherwydd rhwystrau system eraill
- Hoffem wella ein dulliau monitro targedau gwasanaeth a'i gwneud yn hawdd i olrhain canlyniadau ar gyfer plant unigol ac ar gyfer ein poblogaeth y Blynyddoedd Cynnar

#### Mae angen:

- Ffordd i weithwyr proffesiynol gwasanaethau ar draws y rhanbarth gael mynediad hawdd, diweddarau a rhannu gwybodaeth am y teulu, o'r ddyfais y maent yn ei defnyddio eisoes ac o'r man lle maent eisoes yn gwneud eu gwaith (a fydd, os ydynt yn fydwraig, ar y ffordd yn aml)
- Safonau cytûn ar gyfer casglu, storio a chael mynediad at ddata
- Adrodd yn awtomataidd ar ddangosyddion lefel poblogaeth

#### Byddwn yn cyrraedd yno trwy:

- Gwreiddio llais defnyddwyr gwasanaeth ym mhopeth a wnawn (trwy roi mwy o bwyslais ar gasglu adborth a'i ddefnyddio i wella gwasanaethau)
- Parhau i adeiladu sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi buddsoddiad mewn TG a rennir a lobïo i'r newid hwnnw gael ei flaenoriaethu
- Parhau i ddadlau dros ddolenni adborth syml a fyddai'n galluogi staff i awgrymu newidiadau a gwelliannau




## 4. Datblygu ein gweithlu


### Mae angen hyn arnom oherwydd:

- Nid yw teuluoedd bob amser yn cael y gofal a'r cymorth y mae eu hangen arnynt oherwydd diffyg staff.
- Mae staff ym maes iechyd, gofal ac addysg yn hynod brysur a gall yr amgylchedd gwaith fod yn straen.
- Nid oes iaith gyffredin i ddisgrifio'r un pethau rhwng sefydliadau a phroffesiynau gwahanol. Mae hyn wedi achosi dryswch diangen ac yn arafu pethau.
- Nid yw pob cydweithiwr wedi bod yn hyfforddi ar wasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

### Mae angen:

- Denu a hyfforddi recriwtiaid newydd a'r rhai sy'n dychwelyd i weithlu'r Blynyddoedd Cynnar
  - Cydweithwyr hapusach, mwy hyderus sydd o dan lai o bwysau
  - Iaith gyffredin a ddefnyddir yn eang a ffyrdd cyffredin o weithio
  - Cyfleoedd hyfforddi traws-wasanaeth, yn enwedig ym maes gofal ar sail tystiolaeth
  - Cydnabod sgiliau trosglwyddadwy rhwng gwasanaethau a phroffesiynau
  - Llwybrau gyrfa cliriach i weithwyr y Blynyddoedd Cynnar
  - Mwy o dimau aml-ddisgyblaethol
- 

### Byddwn yn cyrraedd yno trwy:

- Chwilio am gyfleoedd i fuddsoddi mewn tyfu'r tîm, gyda marchnata, recriwtio a hyfforddiant priodol
  - Meithrin cysylltiadau agosach ag ysgolion, colegau a gwasanaethau gyrfaedd i hyrwyddo swyddi a lleoliadau profiad gwaith yn y sector
  - Datblygu cynnig hyfforddiant sylfaenol cyffredin ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol y Blynyddoedd Cynnar
  - Datblygu cynlluniau dilyniant gyrfa clir, gan gynnwys opsiynau datblygiad personol a hyfforddiant
- 

## 5. Darparu gwybodaeth hygyrch



### Mae angen hyn arnom oherwydd:

- Nid yw'n hawdd dod o hyd i wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael, i deuluoedd neu weithwyr proffesiynol. O ganlyniad, mae rhai gwasanaethau'n cael eu tanddefnyddio
- Felly nid yw teuluoedd yn gwybod ble i droi. Nid yw gweithwyr proffesiynol bob amser yn gwybod ble i'w cyfeirio nhw.
- Mae'r wybodaeth sy'n bodoli yn dameidiog; os nad ydych chi'n gwybod ble i edrych, mae'n anodd dod o hyd i'r wybodaeth.
- Mae'n gostus ac yn cymryd llawer o amser i gadw'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi'i ddiweddarau, ac mae amser staff ar gyfer hyn yn gyfyngedig.

### Mae angen:

- Gwybodaeth glir, hygyrch, gynhwysfawr a syml mewn un lle
- Gwybodaeth ar-lein sydd mor dda ac mor hawdd i'w defnyddio, ac felly'n marchnata ei hun ar lafar
- Y gallu i weithwyr proffesiynol olygu neu anodi gwybodaeth arni yn gyflym ac yn hawdd
- Gwybodaeth sefydliadol well am lwybrau gofal, ac opsiynau ar gyfer atgyfeirio; os yw gweithwyr proffesiynol yn gwybod mwy am y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd byddant yn fwy tebygol o'i awgrymu fel ffynhonnell cymorth i deuluoedd

### Byddwn yn cyrraedd yno trwy:

- Archwilio syniadau ac opsiynau ar gyfer un gwasanaeth gwybodaeth ar-lein a rennir
- Archwilio sut y gallem fuddsoddi mewn rolau ar draws Cynghorau a'r Bwrdd Iechyd sydd â chyfrifoldeb am gyhoeddi a chynnal y wybodaeth honno
- Ymgymryd â gwaith mapio/adolygu i ddeall y llwybrau presennol yn well
- Darparu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol gwasanaethau fel eu bod yn teimlo eu bod mewn sefyllfa well i atgyfeirio teuluoedd at wasanaethau gwybodaeth
- Chwilio am gyfleoedd i weithio gydag asiantaethau eraill ar fuddsoddiadau mewn gwasanaethau gwybodaeth ar-lein yn y dyfodol

**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ddydd Iau, 13 Ebrill 2023**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Caryl Roberts (Cadeirydd), y Cynghorwyr Ceris Jones, Amanda Edwards, Eryl Evans, Keith Evans, Wyn Evans, Gwyn James, John Roberts, Mark Strong a Carl Worrall.

**Yr Aelodau Cabinet a oedd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Matthew Vaux ac Alun Williams.

**Y Swyddogion a oedd yn bresennol:** Mrs Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol Dros Dro'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Mrs Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Gofal, Mr Llyr Hughes, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Tai, Mrs Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu, a Mrs Dana Jones, Swyddog y Gwasanaethau Democraidaidd a Safonau.

(10.00am- 12:20pm)

**1 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Elaine Evans, Ann Bowen Morgan a Sian Maehrlein am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

**2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswilt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Dim.

**3 Strategaeth Dai 2023-2028**

Ystyriwyd fersiwn ddrafft Strategaeth Dai Leol 2023-2028. O dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, roedd gan awdurdodau lleol swyddogaeth strategol o ran y modd yr oedd y farchnad dai leol yn gweithio. Un o'r prif ffyrdd yr oeddent yn cyflawni'r swyddogaeth honno oedd drwy greu Strategaeth Dai Leol. Y nod oedd i'r awdurdod lleol arwain y gwaith o ddatblygu dull gweithredu ar gyfer tai ymhob sector a sicrhau bod tai priodol a gwasanaethau cysylltiedig yn cael eu cyflenwi er mwyn bodloni'r anghenion lleol.

Bu'r Strategaeth Dai Leol bresennol ar waith ers 2018 ac roedd yn gynllun ar gyfer 5 mlynedd. O ystyried hyn, cafodd y Strategaeth Dai ei hadolygu a'i diweddarau. Roedd Uwch Swyddogion y Tîm Tai, partneriaid allweddol a Rheolwyr Corfforaethol pob un o'r Pwrth yn rhan o'r adolygiad a gwnaed llawer o waith i gasglu a dadansoddi data.

Roedd y Strategaeth Dai ddiwygiedig yn amlinellu'r weledigaeth am 5 mlynedd arall:

“Bydd digon o lety addas a chynaliadwy ar gael i fodloni anghenion trigolion y sir yn awr ac yn y dyfodol”.

Yn dilyn trafodaeth, CYTUNWYD ar y canlynol:

- (i) argymhell y dylai'r Cabinet gymeradwyo fersiwn ddrafft y strategaeth a dechrau'r ymgynghoriad ffurfiol ar y strategaeth; a
- (ii) dylai'r Cabinet ystyried argymhelliad yr Aelodau sy'n nodi y dylai'r Cabinet ysgrifennu at Ms Elin Jones, Aelod Etholaeth yn Senedd Cymru, a'r pedwar Aelod Rhanbarthol yn Senedd Cymru, i fynegi pryder nad oedd yn bosib darparu digon o dai i ddiwallu'r anghenion yng Ngheredigion gan fod y Rheoliadau Cynefinoedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried effaith datblygiadau arfaethedig ar ffosffadau ac ansawdd y dŵr o fewn dalgylchoedd afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Roedd hyn yn cael effaith sylweddol ar yr argyfwng tai presennol a dylid ystyried y mater.

ft Local Housing Strategy 2023-

#### **4 Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanathau Cymdeithasol ar gyfer 2020-2021, 2021-2022**

Ystyriwyd Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2020/2021 a 2021/2022. Diffiniwyd y ddyletswydd i lunio Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Rhan 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o dan y 'Cod Ymarfer ar Rôl Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol'.

Bu oedi wrth gwblhau'r adroddiadau yn ystod yr argyfwng COVID-19. Adroddwyd na fyddai rheswm dros oedi wrth gynhyrchu a chyhoeddi'r adroddiad ar gyfer y flwyddyn bresennol.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, cytunwyd i argymhell y dylai'r Cyngor dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddogion am eu gwaith caled ac ymroddiad yn ystod cyfnod anodd.

#### **5 Cyflwyno i'r Pwyllgor ddiweddariad ar Wasanaeth Therapi Galwedigaethol Porth Gofal**

Ystyriwyd yr adroddiad diweddar ynghylch Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol Porth Gofal. Rhoddwyd cefndir manwl ynghylch y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol ynghyd â diweddariad ynghylch y sefyllfa bresennol.

Roedd gan y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol niferoedd uchel o bobl ar y rhestr aros ac roedd y niferoedd hyn wedi cynyddu yn sgil y cyfyngiadau COVID gan mai ymweliadau brys a gynhaliwyd yn unig yn ystod y cyfyngiadau. Gan na lwyddwyd i recriwtio i lanw swyddi gwag am gyfnod hir,

nid oedd y gwasanaeth yn gallu lleihau'r rhestr aros. Yn ogystal, roedd rhywfaint o salwch hirdymor yn y gwasanaeth ac roedd yr unig Therapydd Galwedigaethol llawn amser newydd ddychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod mamolaeth.

Adroddwyd mai'r heriau i'r gwasanaeth ar y pryd oedd fel a ganlyn:-

- 1) Recriwtio Therapyddion Galwedigaethol cymwys – roedd hysbyseb ar gyfer 2 swydd Therapydd Galwedigaethol llawn amser wedi bod allan ers bron i flwyddyn heb unrhyw ymgeiswyr.
- 2) Roedd y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol Integredig yn arwain ar bryderon am y gallu i reoli'r tîm oherwydd mynediad i TG a'r adnoddau oedd ar gael. Ar y pryd roedd y galw am y gwasanaeth yn fwy na'r hyn yr oeddent yn medru ei ddarparu ac o'r herwydd roeddent wedi camu nôl o reolaeth weithredol i ddarparu cyfarwyddyd clinigol yn unig. Roedd y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol yn cael ei reoli'n weithredol gan Reolwr Brysbennu Integredig Porth Gofal a oedd yn Weithiwr Cymdeithasol.
- 3) Roedd 2 Uwch Ymarferydd wedi rhoi rhybudd eu bod yn gadael eu swyddi. Roedd 1 wedi ymddeol ar 18.5.2022. Roedd y llall yn gweithio o bell ac wedi'i leoli y tu allan i Geredigion, ac roedd ar rybudd estynedig tan 31/3/23.
- 4) Ni chafwyd unrhyw ymgeiswyr ar gyfer hysbyseb diweddar am 2 uwch ymarferydd (ers y mis Mai blaenorol). Ar y pryd, roedd y swydd wag yn cael ei rheoli gan weithiwr asiantaeth tra bo'r uwch ymarferydd arall yn gweithio cyfnod rhybudd estynedig.
- 5) Roedd risg y byddai'r rhestr aros yn parhau i gynyddu, gan arwain at fwy o risg oherwydd yr oedi pellach ac wrth i sefyllfaoedd waethygu ar gyfer unigolion a theuluoedd.
- 6) Cynnydd yn yr angen am ofal a chymorth yn sgil oedi yn yr ymyrraeth ataliol a oedd ar gael gan y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol.
- 7) Cynnydd yn nifer y cwynion a diffyg ffydd yn y gwasanaeth wrth i ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u teuluoedd deimlo'n rhwystredig gyda'r oedi a'r ffaith nad oedd datrysiad nac amserlen i fynd i'r afael â'r problemau.

O ran y penderfyniad i ddefnyddio asiantaeth allanol i gynorthwyo gyda'r rhestr aros, ni fu hyn mor llwyddiannus â'r disgwyl oherwydd cafodd yr asiantaeth drafferthion wrth geisio cael gafael ar Therapyddion Galwedigaethol a oedd yn medru teithio i Geredigion. Dim ond 34 asesiad a gwblhawyd mewn cyfnod o 4 mis a chodwyd pryderon am ansawdd y gwaith felly terfynwyd y contract. Roedd y gwasanaeth wrthi'n trafod ag asiantaeth arall yn Ne Cymru a oedd wedi dweud y byddent yn fodlon darparu nifer o Therapyddion Galwedigaethol er mwyn cefnogi'r gwasanaeth i leihau'r rhestr aros a hynny am gost o £255 yr asesiad.

Roedd y gwasanaeth yn edrych ar y posibilrwydd o recriwtio Therapyddion Galwedigaethol drwy ymgyrch recriwtio rhyngwladol. Roedd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng rheolwyr o lechyd a Gofal Cymdeithasol i drafod problemau ac ystyried cyfleoedd i gefnogi'r gwasanaeth.

Ar y pryd, roedd strwythur y tîm yn cael ei adolygu er mwyn nodi cyfleoedd i wella'r broses recriwtio ar gyfer y tîm. Roedd asesiad risg wedi'i baratoi ar gyfer y gwasanaeth ac roedd yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa bresennol.

## 6 Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 3, 2022/2023

Ystyriwyd yr adroddiad ynghylch Adroddiad Rheoli Perfformiad y Swyddog Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 3 2022/2023. Roedd yr adroddiad hwn yn cyflwyno gwybodaeth am y gwaith monitro a sicrhau ansawdd mewn perthynas â'r plant sy'n derbyn gofal a adolygwyd yn ystod trydydd chwarter 2022/23. Roedd y wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau fel Rhieni Corfforaethol. Sail y wybodaeth oedd y ffurflenni monitro a gwblhawyd gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn dilyn pob Adolygiad Statudol o Blant sy'n Derbyn Gofal yn ogystal â'r wybodaeth arall yr oedd y Gwasanaethau Plant yn ei chasglu am berfformiad. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddiwyd i fesur canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal adeg eu hadolygiad statudol, gan gynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru a Thargedau Perfformiad Lleol.

Ar sail y wybodaeth a oedd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod y cyfarfod adolygu plant sy'n derbyn gofal, roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn llunio barn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd Cynllun Gofal y plentyn / person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a gallai argymhell newidiadau i'r Cynllun Gofal.

Yn ystod y cyfarfod adolygu roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oedd angen cymorth ar y plentyn / person ifanc i nodi pobl eraill berthnasol er mwyn cael cyngor cyfreithiol / cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn bod angen cymryd y cam hwn ar gyfer 1 person ifanc yn ystod y cyfnod dan sylw. Yn ogystal, roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a fu unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn / person ifanc, ac os felly, gallai gyfeirio'r achos i CAF/CASS. Ni chododd yr angen i gymryd y cam hwn mewn unrhyw adolygiad.

### CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU:

- Ar ddiwedd Chwarter 3, roedd 122 o blant yn derbyn gofal o'i gymharu â 112 ar ddiwedd Chwarter 2.
- Cafodd 116 o blant eu hadolygu yn y chwarter hwn o'i gymharu â 63 yn y chwarter blaenorol. Cwblhawyd nifer fawr o adolygiadau yn y chwarter hwn oherwydd bod y Tîm Innovate wedi dechrau ar eu gwaith yn y sir. Cafodd adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal eu gohirio tan Chwarter 3 pan fyddai mwy o gapasiti, gydag Innovate yn dechrau, a chafodd achosion y plant eu hailneilltuo i weithwyr cymdeithasol newydd a allai gymryd rhan yn y broses adolygu. Cafodd 85.3% o blant eu hadolygu o fewn y terfynau amser statudol o'i gymharu ag 88.9% yn Chwarter 2.
- Gadawodd 8 o blant ofal yn y chwarter hwn o'i gymharu â 6 yn Chwarter 2. Dirymwyd Gorchmynion Gofal 6 o blant, dychwelodd 6 o



blant adref at eu teuluoedd, aeth 1 plentyn i leoliad Pan Fyddaf yn Barod, ac aeth 1 plentyn i lety â chymorth neu i leoliad byw'n annibynnol neu i leoliad cysylltu bywydau.

- O ran y lleoliadau a ddarparwyd ar gyfer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn, roedd 13 o dan ofal maeth yr Awdurdod Lleol, 24 mewn lleoliadau gofalwyr sy'n berthnasau (19 yn y sir, 5 y tu allan i'r sir), roedd 22 mewn lleoliadau Asiantaeth Faethu Annibynnol (7 yn y sir, 15 y tu allan i'r sir), roedd 15 o blant wedi'u lleoli gyda'u rhieni (12 yn y sir, 3 y tu allan i'r sir) ac roedd 12 mewn darpariaeth gofal preswyl y tu allan i'r sir.
- Roedd 74 o blant yn derbyn gofal o dan statws cyfreithiol Gorchymyn Gofal Llawn, 18 o dan Orchymyn Gofal Dros Dro, 4 o dan Orchymyn Lleoli, ac 20 o dan Adran 76.
- O'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn, cafodd 83.6% ymweliad statudol, o'i gymharu â 93.7% yn Chwarter 2.
- Cofnodwyd bod 42.9% o'r Cynlluniau Gofal a Chymorth wedi'u sefydlu yn yr adolygiad cyntaf. Roedd y ganran isel yn ystod y chwarter hwn oherwydd problemau staffio yn y Tîm Gofal wedi'i Gynllunio a oedd wedi atal cynlluniau rhag cael eu cwblhau mewn pryd.
- Dim ond 16.7% o'r plant a adolygwyd yn y chwarter hwn oedd â Chynllun Parhad yn ei le ac wedi'i gytuno erbyn yr ail adolygiad, o'i gymharu â 57.2% yn y chwarter blaenorol.
- O ran y plant mewn gofal o Geredigion a adolygwyd yn ystod Chwarter 3, roedd y ffigurau ynghylch faint o amser yr oeddent wedi bod mewn gofal fel a ganlyn - 27 llai na 6 mis, 9 rhwng 6 –12 mis, 19 rhwng 1 – 2 flynedd, a 61 ers dros 2 flynedd.
- Ar gyfer y plant a oedd yn cael eu hail adolygiad neu adolygiadau dilynol, dyma oedd y cynlluniau parhad a oedd yn eu lle ar eu cyfer – gofal maeth tymor hir ar gyfer 37 o blant, gofal gan berthnasau ar gyfer 17 o blant, tracio deuol ar gyfer 15 o blant, lleoliad gyda rhiant ar gyfer 15 o blant, gofal preswyl ar gyfer 8 o blant, mabwysiadu ar gyfer 5 o blant, lleoliad byw'n annibynnol ar gyfer 4 o blant, ac adsefydlu yn ôl gyda'r rhieni ar gyfer 1 plentyn.
- Canran y plant (â digon o grebwyll) a oedd yn deall y rheswm dros dderbyn gofal oedd 95.3%.
- Canran y plant (â digon o grebwyll) oedd wedi cymryd rhan neu a gafodd eu hymgyngori ynghylch eu hadolygiad oedd 100%.
- Canran y plant a gafodd wybod am eu hawl i gael gwasanaeth eirioli oedd 92.5%.
- Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal o oed ysgol oedd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl iddynt ddechrau derbyn gofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd yn ystod y chwarter hwn oedd 95.5%.
- Nifer a chanran y rhieni y bu i'r Gweithiwr Cymdeithasol ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu'n bresennol yn yr adolygiad oedd 100%.
- Cynhaliwyd 17 o Gynlluniau Llwybr yn ystod y chwarter hwn, o'i gymharu â 33 yn Chwarter 2. Cynhaliwyd 70.6% o'r Adolygiadau o'r Cynlluniau Llwybr o fewn y terfynau amser gofynnol.

- Canran y bobl ifanc ag Ymgynghorydd Personol / Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig oedd 100% yn ystod y chwarter hwn.
- Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y cyfarfod adolygu yn ystod y chwarter hwn oedd 82.4%.

CYTUNWYD i nodi cynnwys yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd.

### 7 **Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Gorllewin Cymru**

Roedd yr holl ddeddfwriaeth ddiweddar o ran iechyd a gofal cymdeithasol yn cydnabod bod eiriolaeth yn sylfaenol bwysig mewn sefyllfaoedd pan fo angen i unigolion a grwpiau a oedd ar y cyrion gael cefnogaeth i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u hawliau'n cael eu parchu. Roedd eiriolaeth yn cael ei chynllunio a'i chyflwyno er mwyn annog unigolion a grwpiau i gymryd rhan yn y penderfyniadau a'r prosesau a oedd yn effeithio ar eu bywydau.

Er nad oedd yn ofyniad statudol, roedd y Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Ranbarthol yn ceisio llunio ein trefniadau comisiynu i fodloni'r gofynion cyfreithiol er mwyn sicrhau bod eiriolaeth o ansawdd da ar gael yn rhwydd i bawb sydd ei heisiau, neu sydd ei hangen, yn rhanbarth Gorllewin Cymru, sef Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

Roedd y strategaeth hon yn seiliedig ar gyfnod estynedig o ymgysylltu â dinasyddion, yn enwedig felly'r rheiny a oedd yn ymgysylltu â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, sefydliadau eiriolaeth, ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, comisiynwyr statudol a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

Roedd gan y Strategaeth Eiriolaeth Oedolion hon bum maes blaenoriaeth, ac roedd pob un ohonynt yn anelu at wella'r canlyniadau ar gyfer y bobl a oedd angen eiriolaeth. Cafodd y blaenoriaethau eu diffinio yng ngoleuni gweithgarwch cydgynhyrchu hyd yn hyn, ymgysylltu, yr Asesiad Poblogaeth Rhanbarthol ac roeddent yn ymateb i'r gofynion deddfwriaethol. Roeddent yn cynnwys y canlynol:

- Blaenoriaeth 1. Cynnal a datblygu ein dull cydgynhyrchu ymhellach.
- Blaenoriaeth 2. Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o eiriolaeth.
- Blaenoriaeth 3. Gofalu bod eiriolaeth ar gael yn hwylus ac i bawb.
- Blaenoriaeth 4. Gofalu bod safon eiriolaeth yn gyson uchel.
- Blaenoriaeth 5. Cynnal arbenigeddau a mathau anstatudol o eiriolaeth.

Roedd pob blaenoriaeth yn y strategaeth yn amlinellu pam yr oedd yn bwysig a beth oedd y sefyllfa bresennol yng Ngorllewin Cymru. Yn dilyn hyn, roedd pob blaenoriaeth yn amlinellu'r camau yr oedd angen eu cymryd i sicrhau bod pob un o'r meysydd blaenoriaeth yn cael eu bodloni.

CYTUNWYD i gymeradwyo Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Ranbarthol Gorllewin Cymru fel y'i cyflwynwyd.

**8 Cofnodion cyfarfod mwyaf diweddar y Pwyllgor ac unrhyw faterion yn codi ohonynt**

Cytunwyd i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2023.

Materion yn codi

Dim.

**9 I gonsidro'r Blaenraglen Waith**

CYTUNWYD i nodi cynnwys y Flaenraglen Waith fel y'i cyflwynwyd.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu  
Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 24 Mai 2023**

**Cadeirydd:** \_\_\_\_\_

**Dyddiad:** \_\_\_\_\_

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**ADRODDIAD I'R:** Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach

**DYDDIAD:** 24 Mai 2023

**LLEOLIAD:** Hybrid

**TEITL:** Blaenraglen Waith Ddrafft 2023/2024

**PWRPAS YR ADRODDIAD:** Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor

**Y RHESWM PAM FOD**

**CRAFFU WEDI GOFYN AM** Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i  
**Y WYBODAETH HON:** diweddarau ymhob cyfarfod

**CEFNDIR:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwyllo gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol. Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny. Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau. Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau

- Bod yn ‘gyfaill beirniadol’, drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy’n penderfynu’n destun ‘rhwystrau a gwrthbwysau’, gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau’r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau’r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy’n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o’r radd flaenaf i’w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau’r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymhell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda’r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy’n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â’r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

## Y SEFYLLFA BRESENNOL:

### Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

### Dewis pynciau

Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Strategol, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

### ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):

Adolygu a diweddarau'r Blaenraglen Waith bresennol.

<b>Enw Cyswllt:</b>	Dwynwen Jones
<b>Dynodiad:</b>	Swyddog Trosolwg a Chraffu
<b>Dyddiad yr Adroddiad:</b>	3 Mai 2023
<b>Acronymau:</b>	BW- Blaenraglen Waith FWP- Forward Work Programme

## Tudalen 142

Pwyllgor	Eitem (disgrifiad/teitl)	Siaradwyr Gwadd	Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion
<b>Cymunedau Iachach</b>			
24 Mai 2023	<p>Adroddiad CSSIW a'r Cynllun Gweithredu</p> <p>Diweddariad ar Gofal Cartref</p> <p>Strategaeth Mamolaeth a Blynnyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru</p> <p>Trefniadau mabwysiadu ar y cyd</p>	<p>Audrey Somerton-Edwards</p> <p>Donna Pritchard</p> <p>Iwan Davies/Elen James</p> <p>Audrey Somerton-Edwards</p>	<p>Ar gais y Pwyllgor</p> <p>Cyn-Cabinet</p>
3 Gorffennaf 2023	<p>Recriwtio/Cadw staff Gydol Oes a Llesiant</p> <p>Adroddiad ynghylch arolygiadau safonau bwyd ac arolygiadau ffermydd</p> <p>Taliadau Uniongyrchol</p> <p>Adroddiad ar y Gofrestr Tai</p> <p>Diweddariad ar y Gwasanaeth Cymorth ac Atal</p>	<p>James Starbuck</p> <p>Carwen Evans</p> <p>Donna Pritchard</p> <p>Llyr Hughes/Cerys Purches-Phillips</p> <p>Gethin Jones</p>	<p>Ar gais y Pwyllgor</p> <p>Ar gais y Pwyllgor</p> <p>Ar gais y Pwyllgor</p>



# Tudalen 143

18 Medi 2023	Gwasanaethau Seibiant a Gwasanaethau Dydd  Cynllun Gweithredu Dementia  Strategaeth Tai   Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2022/23	Donna Pritchard  Donna Pritchard Llyr Hughes  Audrey Somerton- Edwards	Cyn-Cabinet      Cyn-Cabinet
22 Tachwedd 2023			
22 Chwefror 2024	Paratoi'r Gyllideb		
11 Mawrth 2024			
Eitemau agenda ar gyfer y dyfodol			

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol